WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

POWERED BY LEVELLING UP

Cygnor Sir CEREDIGION County Council

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales



DRAFT

# ABERYSTWYTH

# Arfarniad Ardal Gadwraeth

Mawrth 2024

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

## TABL CYNNWYS

### ARFARNIAD ARDAL GADWRAETH ABERYSTWYTH


1. CYFLWYNIAD....3
2 CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH ABERYSTWYTH....8
3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU....9
4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNIOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG....12
5. CYD-DESTUN FFISEGOL....17
6. DATBLYGIAD HANESYDDOL....19
7. DADANSODDIAD GOFODOL A CHYMERIAD PENSAERNIOL....26
8. ASEDAU HANESYDDOL DYNODEDIG....44
9. CYMDEITHASAU HANESYDDOL....50
10. HANESION CUDD....53
11. BIOAMRYWIAETH....57
12. GWERTH CYMUNEDOL....60
13. MATERION—DADANSODDIAD CGCB....62


### CYNLLUN RHEOLI ARDAL GADWRAETH ABERYSTWYTH


1. CYFLWYNIAD....2
2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4....2
3. ADOLYGIAD FFINIAU....6
4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS....7
5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL....11
6. YSTYRIED GORFODI....13
7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO....14
8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI....18
9. ADEILADAU MEWN PERYGL....20
10. GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL....21
11. COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED....24
12. MONITRO AC ADOLYGU....26

ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU....28

ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH....31


DRAFT

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 The Historic Environment in Ceredigion

1.1.1 Mae tirwedd Ceredigion â thystiolaeth gyfoethog o'r gorffennol. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn disgrifio canlyniadau rhyngweithio dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefluniau a thirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cymuned ac yn dymuno eu cadw. Bwriad y gyfres hon o arfarniadau a chynlluniau rheoli yw cynorthwyo'r Cyngor a'r gymuned leol / y cyhoedd i ddeall gwerth a diddordeb arbennig yr ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, a'r ffordd orau o'u diogelu a'u gwella.

1.1.2 Mae llawer o nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth a'r system gynllunio (gweler isod). Yn ogystal ag asedau dynodedig Ceredigion mae nifer o nodweddion heb eu dynodi gan gynnwys safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol. Gall asedau heb eu dynodi fod yn fwy agored i newidiadau anghydnaws neu golled trwy ddatblygu a gwaith arall. Yn ogystal â dadansoddi cyfraniad asedau dynodedig i drefi Ceredigion, gall cydnabod asedau heb eu dynodi, trwy ddulliau megis yr arfarniad hwn, helpu i nodi eu harwyddocâd a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru, mae dros 200,000 o asedau treftadaeth heb eu dynodi wedi'u cofnodi ar y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol sydd bellach yn ystyriaeth yn y system gynllunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

DRAFT



*Ffigur 1 Golygfa gyffredinol o Glan y Môr, y traeth a Chraig Glais*

1.1.3 Mae 1896 o adeiladau ac adeileddau wedi'u cynnwys yn y 'Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig' yng Ngheredigion. Mae llawer mwy o adeileddau a

adeiladwyd cyn 1948 wedi'u diogelu gan eu bod o fewn 'cwrtil' adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig yn un sydd wedi cael ei nodi, gan Cadw, fel un o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol. Oherwydd hynny, byddai angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeiledd neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol – a elwir yn Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Yn groes i'r gred gyffredin, mae'r rhestriad yn cwmpasu'r adeilad cyfan – y tu mewn a'r tu allan, ac yn cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau.

1.1.4 Mae gan Geredigion 262 o Henebion Cofrestredig. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig cestyll adnabyddus, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol, ond hefyd safleoedd megis odynau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiant haearn, glo a llechi. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y ddaear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys ffabrig ffisegol yr heneb, ei lleoliad ac unrhyw arteffactau cysylltiedig a thystiolaeth amgylcheddol. Mae hyn yn golygu os ydych am wneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud cais i Cadw am ganiatâd – a elwir yn Ganiatâd Heneb Gofrestredig.

1.1.5 Mae 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion. Mae cofrestru yn nodi parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig i Gymru. Maent yn amrywio o ran dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Mae cofrestru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried diddordeb hanesyddol y safle wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau neu beidio.

1.1.6 Mae pedair ardal yng Ngheredigion wedi'u dynodi trwy'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf o'r rhain yw Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion sy'n gorchuddio llawer o rannau dwyreiniol a gogleddol y sir. Mae Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf wedi'i lleoli yn y de-orllewin, ac mae'n cael ei rhannu'n rhannol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae Tirweddau Hanesyddol Dyffryn Drefach-Felindre a Thywi wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, ond mae rhan ohonynt hefyd wedi'i lleoli o fewn ffin ddeheuol Ceredigion.

DRAFT

1.1.7 Mae gan Geredigion 13 o ardaloedd cadwraeth dynodedig hefyd, sy'n golygu bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer dymchwel (sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth) a gwneud gwaith ar goed yn yr ardaloedd hyn. Yr ardaloedd cadwraeth yw:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Adpar
- Aberteifi
- Lambedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Cenarth
- Llanddewi Brefi
- Llanrhystud
- Llansantffraed
- New Quay
- Tregaron

Of these areas; Cardigan, Llanddewi Brefi and Tregaron have Article 4 Directions in place. These Directions remove the permitted development rights for a particular building, site or area meaning that there are more restrictions regarding what works can be carried out without the need for planning permission. Trees in Conservation Areas are also protected: the local authority must be given 6 weeks notice before carrying out works to trees in a conservation area.

## 1.2 Ardaloedd Cadwraeth

1.2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ***gadw neu wella*** cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth dynodedig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.




***Ffigur 2 Mae'r bensaernïaeth Fictoraidd yn Aberystwyth yn amrywiol ac o ansawdd uchel***

DRAFT

Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol nodi a dynodi ardaloedd cadwraeth newydd trwy benderfynu pa rannau o'u hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

1.2.2 Mae mwy na 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ac maent yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd arbennig gan y rhai sy'n ymweld â nhw ac yn byw neu'n gweithio yno.

1.2.3 Mae ardaloedd cadwraeth â thystiolaeth ffisegol gyfoethog o'r gorffennol. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Gallai hyn fod yn batrwm yr anheddiad, trefn y gofod a'r lleiniau adeiladu a'r rhwydweithiau o lwybrau yn ogystal â'r arddull a'r math o adeiladau, eu deunyddiau a'u manylion.

1.2.4 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

## 1.3 Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli

1.3.1 Mae adran 71 o Ddeddf 1990 yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'i ardal sy'n ardaloedd cadwraeth. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn datgan mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer cynigion o'r fath gan eu bod yn darparu sail ar gyfer cynlluniau rheoli manylach.


1.3.2 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig cyd-ddealltwriaeth o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial, y gellir eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllun rheoli manylach wedi'i ategu gan fframwaith polisi lleol cadarn.

1.3.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu The Griffiths Heritage Consultancy i baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli, ochr yn ochr ag adolygu ffiniau, ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth mewn 6 o drefi'r sir.

1.3.4 Mae'r arfarniadau a'r cynlluniau rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y nodir yn adran 4.5. Os cytunir arnynt, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus pellach, byddant yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion fel canllawiau cynllunio atodol (CCA).

DRAFT

***Ffigur 3 Ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth yn Aberystwyth***



## 2. CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH ABERYSTWYTH

### 2.1 Dynodiad a Ffin yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Dynodwyd yr ardal gadwraeth yn 1969 a chafodd ei hymestyn yn 1980, 1981 ac 1984. Mae'n cwmpasu craidd y dref ar hyd y draethlin ac i'r gogledd o'r rheilffordd.

2.1.2 Mae'r ardaloedd diwydiannol a masnachol modern i'r de a'r dwyrain wedi'u heithrio o'r ffin, yn ogystal ag ardaloedd yr Ysbyty, y Brifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol i'r gogledd a'r dwyrain.

### 2.2 Lleoliad a Safle

2.2.1 Lleolir Aberystwyth mewn man gwledig ar arfordir gorllewinol Cymru tua hanner ffordd ar hyd Bae Ceredigion. Dyma'r dref fwyaf yng Ngheredigion. Fe'i lleolir lle mae afon Ystwyth ac afon Rheidol yn mynd i mewn i'r môr. I'r dwyrain mae gorlifdir afon Rheidol a thu hwnt mae Mynyddoedd Cambria. Am flynyddoedd lawer roedd y gorlifdir wedi cyfyngu datblygiad y dref tua'r dwyrain.

2.2.2 I'r gogledd mae Craig Glais ac i'r de Pen Dinas, gan greu modrwy o dir uwch o amgylch y dref.

2.2.3 Mae Aberystwyth yn gymharol anghysbell a'r aneddiadau agosaf o faint tebyg yw Caerfyrddin sydd wedi'i lleoli 50 milltir i'r de, Abertawe 70 milltir i'r de, y Drenewydd 40 milltir i'r dwyrain, Amwythig 75 milltir i'r dwyrain a Wrecsam 80 milltir i'r gogledd-ddwyrain.

2.2.4 Mae ei lleoliad arbennig, wrth ymyl y môr gyda harbwr naturiol ac arfordir godidog ac wedi'i hamgylchynu gan fryniau amddiffynnol a thirwedd hardd yn sicr yn rhan o'r rheswm dros ddewis y lleoliad ar gyfer aneddiadau cynharach, ac mae wedi cyfrannu at lwyddiant a datblygiad y dref dros y blynyddoedd.

### 2.3 Disgrifiad Cryno

2.3.1 Er iddi ymddengys i lawer fod Aberystwyth yn dref glan môr Fictoraidd sylweddol, fe ddechreuodd fel anheddiad canoloesol pwysig, gan ddilyn llwyddiant y gymuned Gristnogol gynnar yn Llanbadarn Fawr a manteisio ar dopograffeg a lleoliad naturiol Aberystwyth. Yn wir, mae gan Aberystwyth lawer o adeiladau Sioraidd pwysig o ansawdd uchel yn ogystal â'i phensaernïaeth Fictoraidd enwog, ac mae'r cynllun strydoedd canoloesol yn diffinio llawer o'r dref bresennol. Serch hynny, mae Aberystwyth heddiw wedi'i dominyddu gan ei lleoliad ar lan y môr ac ehangder trawiadol yr adeiladau teras Fictoraidd ar hyd y Promenâd. Mae amrywiaeth eang o arddulliau pensaernïaeth Fictoraidd yn dangos ei chyfnodau datblygu yn ystod cyfnod hwn, gan gyfuno adeiladau masnachol, dinesig, ysbrydol, domestig ac adloniadol i greu strydluniau sy'n arddangos amrywiaeth hyfryd o ddyluniadau a deunyddiau, gyda mannau agored dymunol a gweithgar rhyngddynt. Mae manylion pensaernïol gofalus ac o

DRAFT

ansawdd uchel yn nodwedd o bensaernïaeth Sioraidd a Fictoraidd, ac nid yw Aberystwyth yn eithriad gyda llu o enghreifftiau o waith haearn, cerrig addurniadol, brics a theils, ffenestri, drysau, portshys, a llawer o enghreifftiau eraill.



*Ffigur 4 Maestrefi deiliog a thai tref Fictoraidd cain ym Morfa Mawr*

DRAFT

## 3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU

### 3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

3.1.2 Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn mynd i barhau i ddarparu ei fuddion cyfoethog i gymunedau mae angen nodi'r hyn sy'n arwyddocaol a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.

3.1.3 Mae rheoli newid mewn modd cadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o gymeriad ac arwyddocâd yr ardal yn hanfodol i gynnal ansawdd arbennig ardal benodol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gallant eu darparu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.

### 3.2 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

3.2.1 Mae Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol nodi 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu golwg' a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Rhaid iddynt hefyd lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella'r ardaloedd cadwraeth hyn o bryd i'w gilydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella ardaloedd cadwraeth mewn polisïau cynlluniau datblygu lleol ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

3.2.2 Roedd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi diwygio Deddf Cynllunio 1990 mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys gofyniad i gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth gyda cheisiadau ar gyfer Cydsyniad Ardal Gadwraeth.

3.2.3 Cafodd y ddeddf newydd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023, a disgwylir i'r Ddeddf ddod i rym ar ddiwedd 2024. Bydd yn dod â'r holl ddeddfwriaeth bresennol ynghyd mewn un Ddeddf ddwyieithog heb effeithio ar y lefelau presennol o ddiogelwch neu ddyletswyddau.

### 3.3 Polisi Cenedlaethol a Chanllawiau

3.3.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (Rhifyn 12, 2024) yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen i hyrwyddo dylunio da.

3.3.2 Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisïau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.

3.3.3 Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.

3.3.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cyhoeddiad (2011) Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel. Mae'r ddogfen yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol:

- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
- Mae deall pwysigrwydd asedau hanesyddol yn hollbwysig

DRAFT

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
- Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
- Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
- Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt

3.3.5 Mae Cadw hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau canllawiau arfer gorau sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chyngor cynllunio cysylltiedig gan gefnogi'r rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru; Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru; Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru; Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru,* a *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig,* ymysg eraill.

3.3.6 Mae cyhoeddiad Cadw *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24 ac yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

DRAFT



***Ffigur 5 Tai tref Fictoraidd pedwar llawr mewn arddulliau pensaernïol amrywiol yn Rhodfa'r Gogledd***

## 3.4 Polisi Cynllunio Lleol

3.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDLl1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn nodi polisïau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o 15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r CDLl newydd (CDLl2) wedi'i atal ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â ffosffad ac felly CDLl1 yw'r Cynllun Datblygu cyfredol ar gyfer y sir.

3.4.2 Yn CDLl1, mae Polisi DM07 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle maent ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.

3.4.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yn darparu canllawiau atodol ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol neu sy'n effeithio arno.

3.4.4 Yn 2013 cynhyrchodd Cadw Astudiaeth Pennu Nodweddion Trefol Aberystwyth *(Aberystwyth: Deall Nodweddion Trefol)*. Mae'r ddogfen hon, er ei bod bellach yn ddeng mlwydd oed, yn fanwl iawn ac wedi'i hymchwilio'n dda, ac mae'n parhau i fod yn esiampl o bennu nodweddion a dylid cyfeirio ati o hyd wrth wneud penderfyniadau a darparu cyngor ynghylch ardaloedd cymeriad a phensaernïaeth. Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â stent ehangach y dref bresennol ac mae wedi cael ei defnyddio'n helaeth i lywio'r arfarniad hwn. Mae'r arfarniad hwn yn wahanol i'r astudiaeth pennu nodweddion o ran yr ardal a gwmpesir, y polisïau arfarniad, dadansoddi a rheoli, ymgynghori â'r gymuned, a'r newidiadau a fu dros y deng mlynedd diwethaf.

3.4.5 Gwnaeth y Cyngor lawer o waith i lunio arfarniad ardal gadwraeth drafft yn 2015, yn enwedig mewn perthynas ag ardaloedd cymeriad y dref. Mae'r ddogfen hon wedi cael ei defnyddio i lywio'r arfarniad hwn ac yn ei diweddaru i gwmpasu'r newidiadau a fu yn y blynyddoedd wedyn, ystyried canllawiau a phrosesau newydd a gorffen unrhyw rannau oedd yn weddill.

# 4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## 4.1 Crynodeb o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig

| ARWYDDOCÂD TYSTIOLAETHOL | ARWYDDOCÂD HANESYDDOL | ARWYDDOCÂD ESTHETIG | GWERTHOEDD CYMUNEDOL |
|---|---|---|---|
| UCHEL | UCHEL | CANOLIG / UCHEL | UCHEL |

4.1.1 Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r esboniadau isod, yn crynhoi cyflwr yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd ac yn nodi'r diddordeb arbennig a ddylai gael ei gadw, a hefyd lle gellir gwneud gwelliannau. Nid yw gwerth 'uchel' yn golygu na ellir gwneud gwelliannau. Maent yn seiliedig ar yr ymchwil a'r asesiad ffisegol a hanesyddol a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad hwn ac a ddefnyddir ar y cyd â chyhoeddiad Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011), sy'n nodi pedwar gwerth treftadaeth ar gyfer nodi arwyddocâd:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniadol a dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.
- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau a'r gwerthoedd roeddent yn eu coleddu. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.
- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddylunio a chrefftwaith ymwybodol, neu o effaith ffodus newid dros

DRAFT




*Ffigur 6 Mae gweddillion hanes Sioraidd Aberystwyth yn cyfrannu at ei gwerthoedd hanesyddol a thystiolaethol*

amser. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd; gall cofnodion cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.

- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol gael eu coleddu gan y bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiad neu gof cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.

4.1.2 Mae Ardal Gadwraeth Aberystwyth yn gynnyrch cyfres o gamau datblygu cynlluniedig a reolir yn dynn gan ddechrau gyda chynllun grid canoloesol yr hen dref a'r datblygu cyfyngedig dilynol o fewn muriau'r dref a'r cyfyngiadau dylunio diweddarach a osodwyd gan Gorfforaeth y Dref.

4.1.3 Mae'r cymeriad pensaernïol Fictoraidd cyffredinol yn golygu y gall fod yn anodd adnabod yr ychydig adeiladau ac adeileddau cynharach sydd ar ôl, ac yn sicr byddai llawer yn meddwl am Aberystwyth fel tref glan môr Fictoraidd yn unig.

4.1.4 Mae lleoliad Aberystwyth wedi cael dylanwad mawr dros ei chymeriad presennol – o gyfyngiadau datblygu ar y corstir o gwmpas a'r angen i gael datblygiadau pwrpasol sy'n darparu ar gyfer y diwydiant twristiaeth glan môr, i'w datblygiad fel hyb rhanbarthol oherwydd ei phellter oddi wrth unrhyw drefi eraill o faint rhesymol.

### 4.2 Tystiolaethol

4.2.1 Mae gwerth tystiolaethol cynllun stryd, archeoleg ac adeiladau o gyfnodau gwahanol yn Aberystwyth yn arddangos canrifoedd o ddatblygu cynlluniedig ac yn rhoi cipolwg ar y drefn gymdeithasol a'r rhesymau dros ddatblygu mewn cyfnodau hanesyddol gwahanol.

4.2.2 Mae potensial mawr bod tystiolaeth archeolegol (adeiladau) o dan y ddaear ac sy'n sefyll wedi goroesi ac y gallai roi gwybodaeth i ni am y cyfnodau datblygu cynharach a dilynol yn y dref.

4.2.3 Mae deunydd ymchwil archifol a hanesyddol sylweddol ar gael ar gyfer gwneud astudiaethau pellach ar hanes a datblygiad Aberystwyth.

### 4.3 Hanesyddol

4.3.1 Cydnabuwyd pwysigrwydd strategol Aberystwyth yn y cyfnod canoloesol gan Edward I trwy sefydlu un o'i gestyll cyntaf yn yr ardal.

4.3.2 Mae'r cysylltiad â'r ganolfan fynachaidd o bwys cenedlaethol yn Llanbadarn Fawr yn dangos pwysigrwydd yr eglwys yn y gymdeithas ganoloesol.

DRAFT

4.3.3 Roedd Aberystwyth yn ganolfan forwrol bwysig ac yn gyrchfan twristiaeth ddylanwadol. Dyma oedd canolfan weinyddol diwydiant lleol megis mwyngloddio plwm, ac Aberystwyth yw'r brif dref sirol erbyn hyn.

4.3.4 Mae llawer o ffigurau hanesyddol pwysig wedi dylanwadu ar ddatblygiad a chymeriad y dref.

## 4.4 Esthetig

4.4.1 O ehangder ysblennydd Glan y Môr i'r castell mawreddog, trwy'r llu o siopau ac adeiladau hanesyddol, sgwariau hamddenol a chaffis stryd a'r manylion pensaernïol hynod ddiddorol, mae gan Aberystwyth esthetig i blesio'r rhan fwyaf o feirniaid.

4.4.2 Mae cyfran gymharol uchel o siopau a lloriau uwch gwag, coed stryd a gollwyd a thraffig trwm yn amharu ar werthoedd esthetig y dref, yn bennaf oherwydd yr effaith ar fywiogrwydd, annibendod gweledol a'r cynnydd mewn gwaith cynnal a chadw y mae hyn yn ei achosi. Mae potensial mawr ar gyfer gwella'r agwedd hon.




*Ffigur 7 Mae teils addurniadol y dafarn hon yn ychwanegu at werth esthetig cyfoethog y manylion pensaernïol yn Aberystwyth*

## 4.5 Gwerthoedd cymunedol

4.5.1 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys nifer fawr o adeiladau cyhoeddus ac adnoddau cymunedol megis Neuadd y Dref, y castell, amgueddfa, eglwysi, tafarndai, capeli, siopau, banciau, bwytai, gwestai, canolfannau'r celfyddydau ac adeiladau cymunedol ymysg eraill.

4.5.2 Mae llawer o brif weithgarwch masnachol ac economaidd yn digwydd o fewn ffin yr ardal gadwraeth sy'n golygu bod gan yr ardal werth cymunedol uchel o ran incwm a chyflogaeth.

4.5.3 Yn ystod y broses o lunio'r arfarniad hwn, anfonwyd arolwg cychwynnol at randdeiliaid yn gofyn iddynt nodi beth oedd yn bwysig, yn eu barn nhw, am yr ardal gadwraeth, ac a oedd unrhyw broblemau. Cafwyd un ymateb ar ran 19 o bobl i'r arolwg hwn.

4.5.4 Er mwyn casglu sylwadau cyhoeddus ar y drafft cyntaf o'r arfarniad a'r cynllun rheoli, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus galw heibio yn Aberystwyth ym mis Medi 2023. Roedd yr arfarniad a'r cynllun rheoli drafft hefyd ar gael i'w lawrlwytho trwy ddolen we. Daeth deuddeg o bobl i'r sesiwn a lawrlwythwyd y dogfennau dros 40 o weithiau. Derbyniwyd nifer dda o sylwadau sydd wedi cael eu defnyddio i adolygu'r arfarniad. Roedd yr ymatebion yn ymwneud â'r materion canlynol, ymhlith eraill:

- Twf a datblygiad hanesyddol yn bwysig
- Lleoliad yn bwysig
- Amrywiaeth o ddeunyddiau adeiladu a nodweddion pensaernïol y dylid eu diogelu neu eu hadfer os cawsant eu colli
- Ardaloedd gwyrdd agored a choed yn nodweddion pwysig
- Pensaernïaeth hanesyddol yn bwysig, gan gynnwys mathau a nodweddion penodol megis tafarndai, adeiladau dinesig, y Promenâd, y castell, tai tref Fictoraidd a Chraig Glais.
- Y dref yn hardd i'r llygad ac yn bwysig yn economaidd ac yn hanesyddol
- Hunaniaeth unigryw ac ymdeimlad o le
- Esgeulustod a diffyg cynnal a chadw yn broblem
- Colli nodweddion pensaernïol hanesyddol a defnyddio deunyddiau amhriodol yn broblem
- Mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau datblygu
- Darparu mwy o wybodaeth a dehongliad am hanes y dref
- Cefnogaeth ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4
- Cefnogaeth ar gyfer ymestyn ffin yr ardal gadwraeth ymhellach i gynnwys y pier a'r lanfa, ardaloedd hanesyddol Trefechan, a chynnwys adeiladau sydd o leiaf 80 mlwydd oed ym mhob adolygiad
- Cynnwys darpariaethau ar gyfer cadwraeth y Gymraeg yn yr arfarniad, megis enwau tai ac enwau strydoedd

DRAFFT

4.5.5 O brofiad, ystyrir bod y gyfradd ymgysylltu hon yn gadarnhaol iawn. Mae'n amlwg o'r ymatebion ysgrifenedig a llafar bod y gymuned leol yn ymfalchïo yn y dref, ei phensaernïaeth a'i hanes, a hoffent iddi gael ei chadw a'i gwella. Yn benodol, dywedir bod angen mwy o fuddsoddi mewn prosiectau penodol megis dathlu hanes a datblygiad Aberystwyth a diogelu ei phensaernïaeth.



*Ffigur 8 Mae diogelu nodweddion pensaernïol hanesyddol yn flaenoriaeth uchel i'r gymuned leol*

## 5. CYD-DESTUN FFISEGOL

### 5.1 Daeareg

5.1.1 Yn ôl Cymdeithas Ddaearegol Prydain y creigwely yn yr ardal hon yw grŵp grutiau Aberystwyth – tywodfaen a charreg laid. Ffurfiwyd creigwely gwaddodol rhwng 443.8 a 433.4 miliwn o flynyddoedd yn ôl yn ystod y cyfnod Silwraidd.

5.1.2 Mae cymysgedd o ddyddodion arwynebol ar draws yr ardal gymharol fach hon, yn bennaf oherwydd ei lleoliad arfordirol wrth geg afon:

- Til, Defenaidd – Diamicton, dyddodyn arwynebol gwaddodol a ffurfiwyd rhwng 116 a 11.8 mil o flynyddoedd yn ôl yn ystod yr oes Gwaternaidd

- Llifwaddod – Clai, silt, tywod a graean. Dyddodyn arwynebol gwaddodol wedi'i ffurfio rhwng 11.8 mil o flynyddoedd yn ôl a'r presennol yn ystod yr oes Gwaternaidd
- Dyddodion Cyswllt Iâ Ffrwd-rewlifol, Defenaidd – tywod a graean. Dyddodyn arwynebol gwaddodol a ffurfiwyd rhwng 116 a 11.8 mil o flynyddoedd yn ôl yn ystod yr oes Gwaternaidd
- Dyddodion Traeth Storm – graean. Dyddodyn arwynebol gwaddodol a ffurfiwyd rhwng 2.588 miliwn o flynyddoedd yn ôl a'r presennol yn ystod yr oes Gwaternaidd

5.1.3 Ceir ffosilau hybrin niferus ar hyd y lan.

## 5.2 Topograffeg

5.2.1 Mae prif ganol y dref yn dir isel ac yn wastad ar y cyfan tua 9 i 11m uwchben lefel y môr.

5.2.2 Mae dyffryn Rheidol yn cerfio cwrs is ar ei hyd o'r dwyrain i'r gorllewin, i'r de o'r dref ddatblygedig yn gyffredinol.

5.2.3 Mae'r tir yn codi'n eithaf serth ar ymyl ogleddol y dref i dros 100m uwchben lefel y môr, gyda'r gefnen hon o dir uchel yn parhau tua'r gogledd-ddwyrain. I'r de mae'r bryn serth Pen Dinas hefyd yn codi i dros 100m ac ar ôl disgyn ychydig mae hyn yn parhau i'r de-ddwyrain o'r dref.

5.2.4 Lleolir Aberystwyth o fewn basn ceg afon wedi'i hamgylchynu a'i chysgodi gan fryniau a thir uwch i'r gogledd, y dwyrain a'r de.

## 5.3 Cymeriad Tirwedd

5.3.1 Mae adnodd LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi bod yr ardal hon wedi'i lleoli'n ganolog o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol 'Bryniau a Dyffrynnoedd Rheidol ac Ystwyth'. Mae datganiad cymeriad tirwedd hanesyddol LANDMAP yn nodi, 'ardal adeiledig yn Aberystwyth a Llanbadarn. Mae'n cynnwys hen ganolfannau'r ddau anheddiad hyn, datblygiadau tai modern, sefydliadau megis y brifysgol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ystadau diwydiannol. Mae cyfleusterau twristiaeth/hamdden megis meysydd chwaraeon a chwrs golff wedi'u cynnwys.' 'Garddwriaeth. Anheddiad Cnewyllol. Anheddiad Arall. Prosesu/ Gweithgynhyrchu. Cyfathrebu. Milwrol. Tirwedd wedi'i Dylunio. Hamdden'. Mae'r asesiadau tirwedd hyn yn gyffredinol iawn ac yn cwmpasu ardal ddaearyddol lawer ehangach na'r hyn a ystyr yn yr arfarniad hwn.

5.3.2 Mae disgrifiad CNC o ardal cymeriad tirwedd 'Bryniau a Dyffrynnoedd Rheidol ac Ystwyth' yn rhoi crynodeb ardderchog o'r gefnwlad a'r dirwedd o amgylch y dref: *'Dyma dirwedd a'i chyffiniau, y fro rhwng môr a mynydd, sydd â'i hafonydd yn cydgyfarfod ger y dref. O fewn eu*

DRAFT

*taith gymharol fer, mae'r afonydd yn disgyn yn drawiadol o Bumlumon, yn aml mewn ceunentydd coediog serth sydd ymhlith goreuon Cymru. Wrth iddynt gyrraedd llawr gwlad, deuant yn afonydd llawer arafach, gan ymrannu ac ailymuno ar adegau, yn llifo trwy dirwedd o wrychoedd trwchus a thir pori wedi'i wella, cyn cyrraedd y môr yn ddisymwth yn nhueddau Aberystwyth. Mae cefnennau'n croesi'r ffin rhwng bro a bryniau: rhai ohonynt wedi'u hamgáu, eraill wedi'u coedwigo neu'n foel. O'u copaon gellir gweld ymhell, allan tua'r môr ym Mae Ceredigion'.*



***Ffigur 9 Pen Dinas, Traeth y De a Bae Ceredigion o'r castell***

DRAFT

## 6. DATBLYGIAD HANESYDDOL

### 6.1 Yr Anheddiad Cynnar

6.1.1 Prin yw'r dystiolaeth y bu anheddiad cyn-hanesyddol yn yr ardal ond mae'r gaer o'r Oes Haearn ym Mhen Dinas, i'r de o'r dref, yn awgrymu bod presenoldeb cyn-hanesyddol ddiweddarach o leiaf.

6.1.2 Roedd Aberystwyth yn rhan o blwyf hynafol Llanbadarn Fawr gyda'i aneddiad mynachaidd canoloesol pwysig tan 1861. Gwyddys fod yr anheddiad yn Llanbadarn Fawr wedi bodoli o'r 10fed ganrif. Roedd yr anheddiad yn cael ei adnabod fel Llanbadarn Gaerog tan tua 1400 pan ddefnyddiwyd yr enw Aberystwyth am y tro cyntaf.

6.1.3 Adeiladwyd castell Normanaidd o ddechrau'r ddeuddegfed ganrif gan Gilbert Fitz Richard ar lan dde-orllewinol yr Ystwyth yn edrych dros ei haber wreiddiol (Tan y Castell neu Hen Gastell Aberystwyth). Cyfeiriwyd at anheddiad ger y castell hwn yn 1197.

## 6.2 Castell Edward I a'r Dref Ganoloesol

6.2.1 Aberystwyth oedd un o'r trefi castell cyntaf i gael ei sefydlu gan Edward I gyda'i siarter yn cael ei chyhoeddi yn 1277. Adeiladwyd y castell a thref gaerog gan frawd Edward, Edmund o Gaerhirfryn gydag amddiffynfeydd muriau'r dref yn dechrau yn 1278. Cafodd llawer o'r dref ei dinistrio yn ystod gwrthryfel y Cymru yn 1282 ond roedd y castell a'r muriau wedi'u cwblhau bron erbyn 1289. Adfeilion y castell yw'r unig adeileddau sydd wedi goroesi o'r cyfnod cynnar hwn, ond mae patrwm strydoedd y dref ganoloesol bron yn gyflawn ynghyd â chynllun nodedig y lleiniau bwrdeisi canoloesol.



***Ffigur 10 Rhai o adfeilion Castell Aberystwyth***

6.2.2 Cafodd y dref ganoloesol ei chynllunio ar batrwm grid nodweddiadol sy'n dal i ddiffinio'r graen datblygu yn yr ardal o amgylch y castell.

6.2.3 Mae llinell y muriau a'r ffos yn dal i gael ei dilyn gan Stryd y Brenin, Stryd y Popty, y Ffynnon Haearn, Dan Dre a Than-y-Cae. Roedd porth wrth droed y Stryd Fawr, ar y gyffordd â Rhodfa'r Gogledd lle mae llinell Stryd y Popty a'r Ffynnon Haearn yn ei chroesi, ac un arall wrth droed Stryd y Bont yn agos i'r bont. Roedd trydydd porth ar ddiwedd y Porth Bach.

6.2.4 Roedd rhannau o furiau'r dref wedi goroesi tan ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan gafodd y pyrth eu symud a chafodd cerrig y muriau eu defnyddio'n helaeth ar gyfer gwaith adeiladu mewn mannau eraill.

6.2.5 Bur' dref yn dyst i aflonyddwch y Cymry ar ddiwedd yr Oesoedd Canol. Cafodd ei llosgi gan Owain Glyndwr yn 1401, ei chipio gan ei luoedd yn 1404 a'i hailfeddiannu gan y Saeson yn

1408. Felly ni lwyddodd i ffynnu yn ystod y cyfnod hwn, ac erbyn y 1530au cafodd John Leyland fod y muriau yn adfeilion. Erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg nid oedd ond mwy na 'three or four core inhabited houses and as many if not more uninhabited dwellings in decay' (WJ Lewis (1959) 'Some aspects of the history of Aberystwyth', Ceredigion, Cyfrol III, Rhif 4).

## 6.3 Y Cyfnod Ôl-ganoloesol

6.3.1 Yn ystod Oes y Tuduriaid, unwaith eto gwelwyd aflonyddwch mewnol yn Aberystwyth, yn enwedig yn ystod y Rhyfel Cartref. Cafodd y castell ei ddal ar gyfer y Brenhinwyr, ei gipio gan luoedd y Seneddwyr ar ôl gwarchae, a'i ddinistrio'n fwriadol yn 1649.

6.3.2 Ychydig o ddatblygu fu yn ystod hwn cyfnod. Roedd dwy ardal o dir comin ar bob ochr i Stryd y Bont a mannau agored eraill y tu ôl i'r eiddo yn Heol y Wig wedi parhau heb eu datblygu tan ddiwedd y deunawfed ganrif. Ni chaniatawyd unrhyw waith adeiladu ar y tir comin y tu allan i'r muriau tan 1797.

DRAFT

## 6.4 Y Cyfnod Sioraidd

6.4.1 Hwn oedd cyfnod chwyldro amaethyddol, diwydiannu a ffyniant economaidd i'r DU. Mae'r adeiladau hynaf sydd wedi goroesi yn y dref yn dyddio o'r cyfnod hwn, ac mae'n amlwg bod ei ffawd yn newid wrth iddi dyfu ar gefn y diwydiant mwyngloddio plwm lleol ac wrth iddi dyfu i fod yn gyrchfan glan môr poblogaidd.

6.4.2 Yn ystod y cyfnod hwn cafodd y tollty ei drosglwyddo i Aberystwyth o Aberdyfi yn 1763, sefydlwyd ymddiriedolaeth harbwr yn 1780, a chafodd yr harbwr ei wella o'r diwedd yn y 1830au gan ddechrau gydag adeiladu pier cerrig (fe'i estynnwyd yn 1858 a'r 1870au).

6.4.3 Cyn 1808, roedd y comin yn dir agored ac roedd gan y bwrdeisiaid hawliau arbennig drosto. Rhwng 1813 ac 1834 gosododd y Pentreflys lawer o'r hen gomin ar brydlesi hir i dalu ffioedd cyfreithiol gan gynnig modd i'r dref ehangu. Ar ôl gael rheolaeth dros y dref, ei marchnadoedd, ei datblygiad, ei chyfraith a threfn ac ati ers diwedd y 1600au, daeth y Pentreflys i ben ar ddiwedd 1835 pan basiwyd y Ddeddf Corfforaethau Dinesig.



*Ffigur 11 Tai tref Sioraidd yn Stryd y Farchnad*

6.4.4 Roedd y teulu Powell o Nanteos yn ddeiliaid tir mawr ac fe adeiladon nhw sawl datblygiad pwysig yn y dref, yn fwyaf arbennig y datblygiad preswyl ym Maes Lowri, yr Ystafelloedd Cyfarfod yn 1820 a'r adeiladau yn Heol y Wig, y Porth Bach, y Stryd Newydd a Stryd y Farchnad. Adeiladodd teuluoedd cyfoethog dylanwadol eraill, megis y teulu Pryse o Gogerddan, dai mawr ac adeiladau eraill o fewn y dref wrth iddi ddod yn ffasiynol gyda'r elît.

6.4.5 Cafodd gwestai a thafarndai newydd eu hadeiladu i ddarparu ar gyfer y diwydiant twristiaeth newydd yn ogystal â thai gosod pwrpasol. Sefydlwyd baddondy môr erbyn 1809, dechreuodd y Promenâd erbyn 1819, ac erbyn 1848 roedd 60 o dai wedi cael eu hadeiladu ar hyd Glan y Môr.

6.4.6 Yn 1835 newidiodd dwy Ddeddf Seneddol y ffordd y cafodd datblygiad y dref ei reoli. Diddymodd y Ddeddf Corfforaethau Dinesig y Pentreflys a chyflwynodd y Cyngor Bwrdeistref etholedig a Deddf Gwella leol a sefydlodd Gomisiynwyr Gwella Trefi i wella'r dref a darparu cyflenwad dŵr.

## 6.5 Oes Fictoria

6.5.1 Roedd y Comisiynwyr a'r Cyngor Bwrdeistref wedi cwblhau neu oruchwylio llawer o waith gwella yn y dref gan wella amodau yn y dref a chyfrannu at ei datblygiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sefydlu cyflenwad dŵr ei hun i'r dref
- Adeiladu draeniau a charthffosydd
- Goleuadau stryd gyda nwy ac yn ddiweddarach trydan
- Gosod cerrig llorio yn lle'r palmentydd coblog
- Sefydlu Heddlu Aberystwyth
- Adeiladu Neuadd y Sir newydd
- Marchnad newydd ym Maes Iago
- Sefydlu marchnad bysgod o dan Neuadd y Dref
- Ethol Bwrdd Ysgol ac agor Ysgol Fwrdd (Ysgol Gymraeg erbyn hyn) yn Ffordd Alexandra
- Agor llyfrgell gyhoeddus am ddim yn 1874
- Symud y farchnad wartheg o ardal Morfa Mawr i Goedlan y Parc
- Adeiladu Cloc y Dref (wedi'i ddymchwel erbyn hyn)
- Adeiladu Gwesty Cambria

DRAFT

- Adeiladu Rheilffordd y Graig
- Ysbyty newydd yn Ffordd y Gogledd
- Agor mynwent newydd yn Fforddd Llanbadarn
- Clirio'r slymiau yn Stryd y Crynwyr, Rhes y Poplys a Ffordd y Drindod ar ddechrau'r 20fed ganrif

6.5.2 Roedd yr awdurdodau wedi parhau i roi prydlesi ar gyfer gwaith adeiladu preifat newydd ond gyda chyfyngiadau dylunio a graddfa caeth wedi'u rheoli gan y prydlesi. Yn ystod y cyfnod hwn ehangodd y dref ymhellach mewn ymateb i'r galw ychwanegol gan dwristiaid, yn rhannol oherwydd mynediad newydd ar y rheilffyrdd (Rheilffordd Aberystwyth ac Arfordir Cymru ym 1864, a'r Manchester and Welsh Coast Railway (o Gaerfyrddin) yn 1867). Roedd gwaith adeiladu ar hen ardaloedd tir comin yn golygu bod modd cael adeileddau mwy na dim ond datblygu o fewn y grid o strydoedd canoloesol. Datblygodd arddulliau newydd, daeth y rheilffordd â deunyddiau newydd, a chafodd pensaernïaeth afrad ei chynllunio er na chafodd ei gwireddu bob amser (e.e. Rhodfa Fuddug gan John Pollard Seddon).

DRAFT



*Ffigur 12 Yr hen Westy'r Castell (yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd)*

- Adeiladwyd mwy o dai llety yn Glan y Môr
- Cwblhawyd y gwesty enfawr Gwesty'r Queen's yn 1866
- Dechreuodd waith ar westy mawr arall ger y castell, o amgylch yr hen Dŷ'r Castell, a gafodd ei brynu wedi hynny gan Goleg Prifysgol Cymru pan ddaeth yr arian i ben
- Adeiladu morglawdd o flaen Gwesty'r Queen's – cafodd ei ymestyn yn ddiweddarach hyd at droed Craig Glais
- Adeiladu Rhodfa Fuddug
- Adeiladu pellach yn y lonydd cefn a rhai o'r hen fwrdeisi hefyd (e.e. Rhes Crynfryn)
- Baddondy wedi'i adeiladu ar greigiau ger Gwesty'r Queen's
- Cafodd rhai strydoedd newydd eu creu: cafodd y Stryd Newydd a Stryd y Farchnad eu cynllunio yn y 1830au
- Adeiladau newydd a disodli llawer o'r adeiladau oedd yn bodoli – er enghraifft, ar hyd Stryd Portland, Ffordd Portland, ochr ddeheuol Rhodfa'r Gogledd a'r Stryd Newydd
- Datblygu tai crefftwr ar hyd strydoedd newydd megis Stryd Powell, Stryd William, Stryd Siôr a strydoedd oedd yn bodoli megis y Stryd Uchel a Stryd y Tollty
- Datblygu'r maestrefi yn y Buarth, Ffordd Llanbadarn a Ffordd y Gogledd
- Adeiladu Rheilffordd Dyffryn Rheidol

## 6.6 Modern

6.6.1 Ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau sydd wedi cael effaith fawr yn yr ardal gadwraeth yn ystod yr 20fed a'r 21ain ganrif gan fod y rhan fwyaf o'r datblygiadau mawr yn ystod y cyfnodau hyn wedi digwydd ar gyrion y dref, gan gynnwys adeiladau'r Llyfrgell Genedlaethol, adeiladau newydd y Brifysgol a maestrefi helaeth.

6.6.2 Fodd bynnag, mae rhai adeiladau masnachol wedi cael eu disodli o fewn canol y dref, yn bennaf yn ystod canol i ddiwedd yr 20fed ganrif, a bu datblygiadau gwestai/fflatiau modern cyfyngedig. Byddai rhai o'r datblygiadau masnachol o'r 1960au/70au yn cael eu hystyried yn ymwthiol erbyn hyn. Yn ystod y 1930au roedd adeiladu mannau adloniant fel Neuadd y Brenin (wedi'i ddisodli erbyn hyn gan fflatiau modern), y bandstand, llain bytio, cyrtiau tenis a phwll nofio ym Mhlascrug yn nodweddiadol ond hefyd yn gyfyngedig.

6.6.3 Mae'r profiad modern o Aberystwyth yn un i gerddwyr yn bennaf gan ei fod yn anodd gyrru yn y dref ac mae'r parcio yn gyfyngedig iawn. Yn ystod y cyfnod modern, mae palmentydd a

DRAFT

ffyrdd wedi cael eu disodli a'u haddasu'n dameidiog, mae dodrefn stryd ac arwyddion wedi cael eu darparu a'u disodli, mae rhai blaenau siopau ac arwyddion traddodiadol wedi cael eu disodli, rhai gwelliannau hygyrchedd, ac adeiladu canolfannau siopa a meysydd parcio y tu allan i'r dref.




*Ffigur 13 Ailddatblygiad o ansawdd gwael yr 20fed ganrif yng nghanol y dref*

6.6.4 Gellir dadlau mai'r effaith fwyaf o'r oes fodern yw diffyg cynnal a chadw a cholli manylion pensaernïol, yn bennaf ar eiddo preswyl a safleoedd manwerthu. Er bod llawer o adeiladau traddodiadol yn Aberystwyth wedi cael eu newid dros amser, mae eu haddasiadau yn aml wedi bod o ansawdd uchel a bellach ystyrir bod iddynt arwyddocâd yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'n annhebygol y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn rhoi'r un arwyddocâd i ffenestri a blaenau siopau modern o ansawdd gwael. Mae gan Aberystwyth strwythur ac esgyrn pensaernïol tref wirioneddol eithriadol ond fel y gellid disgwyl mewn hinsawdd economaidd anodd, mae diffyg cynnal a chadw yn achosi problemau.

6.6.5 Fodd bynnag, mae'n amlwg bod llawer o brosiectau ar y gweill ar rai adeiladau i'w cadw a'u hadfer i ddefnydd addas. Ceir hefyd rai enghreifftiau rhagorol o gynnal a chadw da a dymuniad i ddarparu arwyddion, dodrefn stryd a'r defnydd o ddeunyddiau traddodiadol.

6.6.6 Mae rhaglenni cadwraeth sy'n cael eu gweithredu gan Gyngor Sir Ceredigion gyda chyllid o ffynonellau amrywiol hefyd wedi gwneud gwahaniaeth yn y dref. Bu sawl un o'r cynlluniau hyn gan gynnwys: Grant Gwella Trefi 2008-2012, Promenâd TS 1996-2001, a chyllid Ardal Adfywio Strategol 2010-2015.




*Ffigur 14 Mae atgyweirio neu ddisodli blaenau siopau gyda dyluniadau a deunyddiau traddodiadol yn gwella cymeriad yr ardal*

## 7. DADANSODDIAD GOFODOL A CHYMERIAD PENSAERNÏOL

### 7.1 Ardaloedd Cymeriad – Cyflwyniad

7.1.1 Mae astudiaeth Nodweddion Trefol Cadw ac Arfarniad drafft 2015 yn nodi y gellir rhannu'r dref yn ardaloedd cymeriad gwahanol, sy'n dal yn berthnasol heddiw. Dylid nodi bod astudiaeth Cadw yn cwmpasu ardal ehangach na'r ardal gadwraeth ac er bod yr ardaloedd cymeriad a nodir yn yr adroddiad hwn yn cyfateb yn fras i'r rhai a nodwyd gan Cadw, nid ydynt yn cyfateb yn union. Mae pum ardal cymeriad wedi'u nodi, ac fe'u dangosir ar y map trosodd:

- Yr Hen Tref
- Glan y Môr, y Promenâd, y Pier a Chraig Glais
- Sgwâr Owain Glyndwr, Rhodfa'r Gogledd, Stryd Portland, Ffordd Alexandra a Ffordd y Môr
- Morfa Mawr, Ffordd y Gogledd, y Buarth ac Ardal Ffordd Llanbadarn
- Plascrug, Cae'r Ficerdy ac Ardal y Fynwent


### 7.2 Ardaloedd Cymeriad – Yr Hen Dref

7.2.1 Mae'r Hen Dref, sef yr ardal o fewn hen furiau'r dref, yn cwmpasu'r ardaloedd canlynol:

- Y Stryd Fawr, y Porth Bach, Stryd y Frenhines, Stryd y Bont a Heol y Wig
- Maes Lowri a'r Castell

DRAFT

*Ffigur 15 Map o'r Ardaloedd Cymeriad yn Aberystwyth*



- Stryd Powell, Lôn Ysbyty Gray, Stryd William a Stryd Siôr
- Y Stryd Uchel, Stryd y Tollty ac Ardal Tan-y-Cae

7.2.2 Y Stryd Fawr gyda'r strydoedd sy'n croesi ar ei thraws Stryd y Bont / Heol y Wig oedd dwy brif stryd y dref ganoloesol, ac mae'r Stryd Fawr yn parhau i fod yn gyswllt cefn pwysig yng nghanol y dref. Ehangodd y dref yn ddiweddarach i'r gogledd a'r dwyrain, a thra bod yr ardal o amgylch Stryd y Bont wedi cadw ei chymeriad preswyl, daeth y **Stryd Fawr** a **Stryd y Bont** yn fwy masnachol.

7.2.3 Roedd y prif strydoedd yn yr ardal hon wedi'u cynllunio gyda lleiniau bwrdeisi pan gafodd y dref ei sefydlu, sy'n parhau i fod yn weladwy yn y graen lleiniau mewn llawer o ardaloedd er iddynt gael eu difrodi gan y datblygiad y tu ôl i'r ffryntiadau ar ochr ddeheuol y **Stryd Fawr**.

7.2.4 Roedd ardal farchnad ar groesffordd y prif strydoedd hyn, ac yn nodedig am nad oedd yn cynnwys unrhyw leiniau bwrdeisi (yr ardal sydd wedi'i ffinio gan ran uchaf y **Stryd Fawr, Lôn Rhosmari a Stryd y Bont**).

7.2.5 Datblygodd pob llain fwrdais ganoloesol yn annibynnol yn bennaf, gan arwain at y cymysgedd amrywiol o oedran a mathau heddiw o adeiladau a welir heddiw, er bod y rhan fwyaf o'r adeiladau ar y prif strydoedd yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a dim ond dyrnaid sydd o gyfnod cynharach o bosibl. Collodd Aberystwyth y rhan fwyaf o'i thai dau lawr gwerinol lleol gyda thoeau ar oleddf serth yn ystod y chwyldro adeiladu Sioraidd Fictoraidd. Fodd bynnag, mae nifer o adeiladau o fewn yr ardal hon yn cadw graddfa'r arddull werinol gynharach – dau lawr gyda thoeau ar oleddf serth sy'n awgrymu y gallai'r adeiladau hyn ddyddio o'r ddeunawfed ganrif, ac felly eu bod ymhlith yr adeiladau cynharaf sydd ar ôl yn Aberystwyth.

7.2.6 Mae'r graen datblygu presennol yn yr ardal hon o ddwysedd uchel gydag amrywiadau yn y ffabrig adeiladu. Mae rhannau ar hyd strydlun y **Stryd Fawr** sydd wedi cael eu hailddatblygu yn yr ugeinfed ganrif; fodd bynnag, mae'r patrwm datblygu i'r ffryntiadau strydoedd yn cadw'r patrwm strydoedd canoloesol gwreiddiol.

7.2.7 Tai tref mawr a geir yn bennaf yn **Stryd y Bont** gydag adeiladau masnachol yn amlwg ar y prif strydoedd gan adlewyrchu'r twf mewn ffyniant economaidd y dref yn ystod yr 18fed a'r 19eg ganrif.

7.2.8 Adeiladau masnachol o raddfa fwy cymedrol o'r 19eg ganrif sydd yn y **Porth Bach** tra bod **Stryd y Frenhines** wedi'i nodweddu gan ei heiddo preswyl talach o ganol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

DRAFFT

7.2.9 Mae gan hen ganol y dref gymeriad pensaernïol bywiog wedi'i fynegi mewn adeiladau o raddfa, deunyddiau a gorffeniad gwahanol. Mae'r ardal hon yn arddangos y cyfnodau allweddol yn natblygiad Aberystwyth o'r cynllun strydoedd canoloesol i'r cyfnod o ffyniant Sioraidd a Fictoraidd. Mae hefyd yn cynnwys ychydig o adeiladau a allai fod yn rhai cyn-Sioraidd (gweler 5.2.5).

7.2.10 Mae'r ardal **Maes Lowri a'r Castell** yn ddatblygiad cynlluniedig o statws uchel ar dir agored blaenorol gyda chymeriad agored eang sy'n cyferbynnu â'r datblygiad dwysach yn yr hen dref i'r dwyrain.

7.2.11 Yn wreiddiol roedd gan yr ardal hon gynllun ffurfiol o amgylch sgwâr wedi'i ffinio ag Eglwys Sant Mihangel a Thŷ'r Castell ar yr ochr arall. Collwyd y man agored pan ailadeiladwyd Eglwys Sant Mihangel ar ei safle presennol yn y 1890au.

7.2.12 Mae **Maes Lowri** yn fframio ochr ddwyreiniol yr ardal hon gyda theras Sioraidd preswyl cynnil hardd tra bod y mannau mewnol mwy agored yn cael eu dominyddu gan raddfeydd mawreddog Gothig Fictoraidd Eglwys Sant Mihangel a chefn yr Hen Goleg / Tŷ'r Castell. Mae'r maes parcio ac adfeilion a thiroedd y castell hefyd yn weledol amlwg.



*Ffigur 16 Maes Lowri*

7.2.13 Mae'r holl adeiladau yn yr is-ardal hon, ar wahân i'r rhan fwyaf o **Stryd y Ro** sy'n eiddo preswyl cymedrol o ddiwedd oes Fictoria, yn adeiladau rhestredig gan gynnwys sawl adeilad Gradd II* a'r castell sy'n adeilad Gradd I.

7.2.14 Mae **Stryd Powell, Lôn Ysbyty Gray, Stryd William** a **Stryd Siôr** yn dai crefftwyr cynlluniedig yn bennaf o ail hanner y 19eg ganrif.

DRAFT

7.2.15 Mae cymeriad pensaernïol yr ardal hon yn gymharol gyson. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau yn rhai preswyl gweddol gymedrol gyda rendr a rhai manylion pensaernïol da, ac mae rhai yn gwneud defnydd o gerrig noeth.

7.2.16 Mae'r datblygiad tai cymedrol hwn yn amgylchynu Eglwys y Santes Fair (Adeilad Rhestredig Gradd II) sy'n dominyddu'r ardal oherwydd ei raddfa a'i ddefnydd o arddulliau Gothig addurnedig.

7.2.17 Mae'r **Stryd Fawr, Stryd y Tollty** ac **Ardal Tan-y-Cae** yn cynrychioli un o'r ardaloedd estyniad wedi'i gynllunio cyntaf ar ôl datblygu'r dref ganoloesol a phan oedd adeiladu ar y tiroedd comin y tu mewn i furiau'r dref yn cael eu caniatáu.

7.2.18 Mae'n debyg mai dyma leoliad yr harbwr canoloesol ond mae datblygiad yr ardal, ar ddiwedd y 18fed ganrif i ddechrau'r 20fed ganrif, wedi creu cyfres o flociau o dai teras mewn cynllun grid rheolaidd yn bennaf. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn dai crefftwyr dau neu dri llawr wedi'u hadeiladu yn uniongyrchol ar y stryd, ac mae'n ymddangos mai'r datblygiad neu'r ailddatblygiad o ddiwedd y 19eg ganrif ar y safleoedd y gallwn ei weld heddiw.

7.2.19 Unwaith eto tai wedi'u rendro sydd amlycaf yn yr ardal hon gyda rhai manylion pensaernïol da. Dim ond tai diweddarach sydd wedi'u gwneud o gerrig noeth gyda manylion cyferbyniol trawiadol mewn brics melyn.

## 7.3 Ardal yr Hen Dref – Nodweddion Allweddol

7.3.1 Mae nodweddion pwysig yr ardal hon yn cynnwys:

- Datblygiad dwysedd uchel
- Patrwm strydoedd canoloesol nodedig
- Lleiniau bwrdeisi wedi'u cadw
- Rhai adeiladau o ddechrau'r 18fed ganrif
- Topograffeg wastad yn bennaf gyda llethr graddol i lawr y rhiw i'r dwyrain
- Strydoedd cul syth ar y cyfan gydag adeiladau tal y naill ochr a'r llall– ymdeimlad o fod yn gaeedig
- Adeiladau 2/3 llawr yn bennaf
- Lled y Stryd Fawr a rhannau o'r Porth Bach




*Ffigur 17 Ffenestri bwa crwm Sioraidd*

DRAFT



*Ffigur 18 Palmentydd cerrig*

- Datblygiad adeiledig parhaus ar hyd strydoedd / tai teras
- Golygfeydd wedi'u cwtogi syth ond byr yn bennaf
- Newid graddol wrth deithio o'r gorllewin i'r dwyrain o eiddo preswyl yn bennaf i eiddo masnachol ar y llawr gwaelod gydag eiddo preswyl uwchben
- Amrywiaeth o ddeunyddiau adeiladu traddodiadol: cerrig, brics, rendr
- Manylion pensaernïol cyferbyniol, yn enwedig naturiol o amgylch drysau a ffenestri
- Lleiniau cornel a nodweddir yn aml gan gyn-westai a thafarndai presennol, yn fwy amlwg yn gyffredinol trwy'r defnydd o fanylion moethus neu raddfa fwy
- Canran uchel o adeiladau rhestredig
- Blaenau siopau gwreiddiol da
- Blaenau siopau ac arwyddion ffasgia modern gwael
- Ffenestri codi a drysau / casinau drysau pren Sioraidd a Fictoraidd wedi'u cadw, yn enwedig y ffenestri bwa crwm neu gornel crwm Sioraidd
- Arddulliau adeiladu unigol o ansawdd uchel gyda manylion pensaernïol addurnol, yn enwedig yn yr ardaloedd dinesig a masnachol ac ar dafarndai presennol a blaenorol
- Ffenestri a drysau newydd pren neu UPVC/alwminiwm wedi'u dylunio'n wael
- Mannau i gerddwyr a mannau agored
- Palmant stryd traddodiadol (mewn rhai ardaloedd)
- Simneiau traddodiadol
- Bargod llydan â bracedi pren wedi'i baentio
- Toeau llechi traddodiadol
- Ffenestri dormer traddodiadol (mae rhai ychwanegiadau modern yn amharu ar y rhain)




*Ffigur 19 Golygfeydd wedi'u cwtogi byr syth*

DRAFFT

- Manylion pensaernïol haearn gyr traddodiadol
- Lleiniau cornel a nodweddir yn aml gan gyn-westai a thafarndai presennol, yn fwy amlwg yn gyffredinol trwy'r defnydd o fanylion moethus neu raddfa fwy
- Canran uchel o adeiladau rhestredig
- Blaenau siopau gwreiddiol da
- Blaenau siopau ac arwyddion ffasgia modern gwael
- Ffenestri codi a drysau / casinau drysau pren Sioraidd a Fictoraidd wedi'u cadw, yn enwedig y ffenestri bwa crwm neu gornel crwm Sioraidd
- Arddulliau adeiladu unigol o ansawdd uchel gyda manylion pensaernïol addurnol, yn enwedig yn yr ardaloedd dinesig a masnachol ac ar dafarndai presennol a blaenorol
- Ffenestri a drysau newydd pren neu UPVC/alwminiwm wedi'u dylunio'n wael
- Mannau i gerddwyr a mannau agored
- Palmant stryd traddodiadol (mewn rhai ardaloedd)
- Simneiau traddodiadol
- Bargod llydan â bracedi pren wedi'i baentio
- Toeau llechi traddodiadol
- Ffenestri dormer traddodiadol (mae rhai ychwanegiadau modern yn amharu ar y rhain)
- Manylion pensaernïol haearn gyr traddodiadol
- Pwyslais llorweddol o flaenau siopau ar lefel y ddaear
- Pwyslais fertigol o ffenestri bae, manylion pensaernïol, lleoliad ffenestri a chymesuredd
- Enwau strydoedd gwreiddiol
- Ardaloedd o anheddau crefftwyr traddodiadol cymedrol
- Blociau modern o fflatiau nad ydynt yn ymateb i'r cymeriad lleol gwerinol
- Systemau traffig un ffordd
- Siopau gwag ac eiddo gwag uwchben siopau
- Baw gwylanod / colomennod (yn fwyaf amlwg ar ffasadau wedi'u rendro)

DRAFT



*Ffigur 20 Teras Fictoria a rhan o Glan y Môr*

## 7.4 Glan y Môr a'r Promenâd

7.4.1 Mae **Glan y Môr** wedi'i ddisgrifio fel y 'gem yng nghoron Aberystwyth' ac mae'r cilgant crwm ar lan y môr wedi'i leinio â hen westai sylweddol (a rhai presennol) ac ystafelloedd gosod tri, pedwar neu hyd yn oed bum llawr gyda rhythmau pensaernïol rheolaidd y ffenestri a'r lloriau yn ei gwneud yn bwysig iawn i gymeriad Aberystwyth.

7.4.2 Mae tair rhan i ardal glan môr Aberystwyth; mae'r rhan fwyaf deheuol yn cynnwys y **Promenâd Newydd** a **De Glan y Môr**. Mae'r rhan ganol yn cwmpasu **Glan y Môr** a **Thraeth y Gogledd** ac mae'r rhan fwyaf gogleddol yn cynnwys **Craig Glais** a **Rhodfa Fuddug**.

7.4.3 Adeiladwyd y **Promenâd** ei hun mewn sawl cam ond mae ganddo gynllun homogenaidd ar y cyfan. Mae ganddo gymeriad cryf oherwydd ei raddfa a'i ddyluniad. Mae elfennau pwysig yn cynnwys y morgloddiau gyda'u rheiliau haearn bwrw, y palmant, rhai o'r dodrefn stryd (yn enwedig y meinciau o waith nadreddog) a'r cysgodfan. Mae ychwanegiadau diweddarach yn cynnwys y bandstand a chysgodfan fach arall, ynghyd ag amrywiol stondinau bwyd lled-barhaol sydd o ddyluniad da ac yn cyd-fynd â'u lleoliad tra'n ychwanegu bywyd at lan y môr. Mae cromliniau a natur serpentaidd yr ardal glan môr yn arbennig o amlwg wrth gerdded ar hyd y promenâd cyfan neu wrth edrych arno o dir uwch.

7.4.4. Mae gan y pier a'i bafiliwn bresenoldeb cryf yn yr ardal hon hefyd ac maent yn ychwanegu nodweddion cyrchfan glan môr Fictoraidd traddodiadol nodedig at y draethlin. Ar hyn o bryd mae wedi'i eithrio o'r ardal gadwraeth, er bod ganddi warchodaeth oherwydd ei statws Rhestredig (Gradd II – Cadw Cyf:10315)

7.4.5 Mae'r **Promenâd** yn ardal brysur ym mhob tymor ond yn enwedig yn ystod misoedd yr haf a'r gwyliau. Mae iddo gymeriad hamdden siriol wedi'i gyfoethogi gan y nodweddion cyfnod a

DRAFT

modern niferus ar ei hyd. Mae Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 81 hefyd yn rhedeg ar hyd y promenâd.

7.4.6 Mae **Craig Glais**, ym mhen gogleddol y bae, yn edrych dros y dref, glan y môr a'r promenâd ac mae'n cadw'r rheilffordd clogwyn Fictoraidd, gorsafoedd a'r camera obscura Fictoraidd newydd, ond nid yw wedi'i gynnwys yn yr ardal gadwraeth. Mae Rheilffordd y Clogwyn, gorsafoedd uchaf ac isaf a Thŷ Rheilffordd y Clogwyn i gyd yn Rhestredig Gradd II (Cadw Cyf.: 10208 a 10207).

7.4.7 Mae **Traeth y Gogledd** wedi'i fframio gan lwyfannau creigiog y Pier a Bath Rock ac mae'n cynnwys tywod tywyll a cherrig mân gyda chreigiau a morglawdd cerrig y tu ôl iddo. Mae cyfres o forgloddiau a grwynau yn croesi'r traeth ac yn darparu cysgod. Gellir cyrraedd y traeth yn uniongyrchol o'r llithrfa goncrit neu, wrth i'r morglawdd cerrig fynd yn uwch tua phen gogleddol y traeth, trwy risiau. Ym mhen gogleddol y traeth mae clogfeini mawr i amddiffyn y morglawdd a'r promenâd. Saif traeth graean bach wedi'i gysgodi islaw llethrau Craig Glais, ychydig y tu hwnt i ddiwedd y promenâd.

7.4.8 Mae **Traeth y De**, sydd wedi'i wahanu oddi wrth y gogledd gan y pier a phenrhyn creigiog Trwyn y Castell, yn draeth tywod a graean bras ar lethr ysgafn y gellir ei gyrchu ar hyd grisiau o'r promenâd.

7.4.9 Er ei fod yn safle hanesyddol pwysig, mae'r **harbwr** heddiw yn ardal dawel llawn cychod hamdden bach, gyda'r rhan fwyaf o strwythurau'r harbwr yn gymharol fodern ac wedi'u hamgylchynu gan ddatblygiadau glan môr modern nodweddiadol.

DRAFT



***Ffigur 21 Y Pier a'r llwyfannau creigiog y tu hwnt, ym mhen deheuol Traeth y Gogledd***

Mae'n debygol bod elfennau o nodweddion hanesyddol yr harbwr wedi goroesi, wedi'u hymgorffori yn y waliau modern.

7.4.10 Nid yw'r **harbwr**, na'r naill na'r llall o'r **traethau** o fewn ffin yr ardal gadwraeth ond maent yn nodweddion pwysig o'i lleoliad.

### 7.5 Glan y Môr a'r Promenâd – Nodweddion Allweddol

7.5.1 Mae nodweddion pwysig yr ardal hon yn cynnwys:

- Terasau hir o hen westai a thai llety a rhai presennol
- Pensaernïaeth ddiwedd oes Fictoria gyda chryn gydlyniad gweledol cyffredinol
- Tystiolaeth ar gyfer cyfnodau adeiladu gwahanol gydag arddulliau pensaernïaeth gwahanol
- Llinell adeiladu wedi'i gosod yn ôl o'r môr
- Llinell adeiladu grwm bron yn barhaus
- Terasau 3/4/5 llawr
- Gwahanu adeiladau oddi wrth balmentydd trwy ddefnyddio ffynhonnau golau a rheiliau
- Promenâd llydan, gwastad, crwm / serpentine
- Man agored cyhoeddus mawr
- Dodrefn stryd, planwyr a strwythurau promenâd
- Rhythmau rheolaidd ffenestri a ffenestri bae
- Ffenestri, drysau, casys drysau a phortshys gwreiddiol, ffenestri dormer a simneiau mawr
- Bargod llydan â bracedi pren wedi'i baentio
- Toeau llechi naturiol
- Adeiladau wedi'u rendro yn bennaf
- Nodweddion pensaernïol haearn gyr traddodiadol
- Cymeriad glan môr traddodiadol
- Lleoliad traeth
- Morglawdd cerrig
- Polion baneri
- Pyst lamp addurniadol arddull traddodiadol (disodlwyd rhai gan oleuadau modern)

DRAFFT

- Llawer o adeiladau rhestredig
- Golygfeydd agored eang allan i'r môr ac ar hyd yr arfordir o'r cilgant a'r Promenâd

## 7.6 Sgwâr Owain Glyndwr, Rhodfa'r Gogledd, Stryd Portland, Ffordd Alexandra a Ffordd y Môr

7.6.1 Mae'r ardal hon bellach yng nghanol y dref ond roedd unwaith yn rhan o'r tir comin a ddatblygwyd yn ystod y 19eg ganrif. Mae'r cyfeiriad cyntaf at adeiladau yn yr ardal hon o 1798 ac mae'n ymddangos bod **Rhodfa'r Gogledd** a'r grid strydoedd cyfagos wedi'u gosod allan erbyn 1809. Fodd bynnag, mae'r adeiladau traddodiadol a welir heddiw yn dyddio'n bennaf ar ôl i'r prydlesi gael eu hadnewyddu yn y 1860au.

7.6.2 Mae'n debyg na ddatblygwyd **Ffordd Alexandra** a **Ffordd y Môr** tan ar ôl dyfodiad y rheilffyrdd ar ddiwedd y 1860au ac mae llawer o ddatblygiadau o ddechrau a diwedd yr 20fed ganrif yn yr ardal hon.

7.6.3 Er bod datblygiadau diweddarach yn aneglur, mae tystiolaeth o hyd o hierarchaeth strydoedd wedi'u cynllunio. Cynlluniwyd **Rhodfa'r Gogledd** fel rhodfa ffurfiol eang gyda **Stryd Portland** yn brif stryd eilaidd, a'r lleill fel lonydd llai, ac mae gwahaniaeth ym maint a statws yr adeiladau yn y strydoedd gwahanol.

7.6.4 Mae amrywiaeth eang o arddulliau, deunyddiau a mathau o adeiladau yn yr ardal hon gyda llawer o adeiladau wedi'u gosod ar wahân i eraill gan eu manylion pensaernïol. Er hynny, o bosibl oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan y Gorfforaeth, mae tebygrwydd o ran maint ac uchder lloriau sy'n cydnabod cyfrannau pensaernïol cyffredinol gweddill y dref.

7.6.5 Nodir **Sgwâr Owain Glyndwr** ar rai mapiau fel pen gorllewinol **Rhodfa'r Gogledd**. Yr un yw cymeriad y ddwy ardal hyn yn y bôn, parhad dwyreiniol y Stryd Fawr ond yn llawer ehangach gyda phalmentydd llydan a llinellau adeiladu di-dor ar y naill ochr a'r llall. Mae'r ffordd brysur wedi'i rhannu yn y canol gydag ynys wedi'i phalmantu â blociau uchel ar ei hyd. Dyma un o'r ychydig ardaloedd yn Aberystwyth gyda choed stryd ond hefyd digon o arwyddion gan fod hon yn barhad o brif ffordd yr A487. Manwerthu yw'r ardal hon yn bennaf ar y llawr gwaelod gan newid i ardal breswyl yn y pen dwyreiniol. Mae gan Sgwâr Owain Glyndŵr a phen gorllewinol Rhodfa'r Gogledd amrywiaeth drawiadol gyda bron pob llain adeiladu yn arddangos arddull pensaernïaeth wahanol ond yn cadw dilyniant o ran maint gyda'r mwyafrif o adeiladau yn 3 neu 4 llawr gyda lled lleiniau tebyg. Mae blaenau siopau ar y llawr gwaelod yn tueddu i fod yr un lled â'r adeilad. Defnyddir palet o liwiau dymunol ar draws yr ardal gan greu cymeriad siriol. Unwaith eto caiff adeiladau corneli eu hamlygu gan eu nodweddion pensaernïol moethus fel tyredau cornel neu drwy ddefnyddio arddulliau pensaernïol llai cyfarwydd i

DRAFT

Aberystwyth fel Adfywiad Clasurol ac Art Deco. Mae'r eiddo preswyl sylweddol yn y pen dwyreiniol yn ffurfiol o ran arddull yn amrywio o rai Sioraidd i ddiwedd y 19eg ganrif yn bennaf. Maent yn cadw rhythmau pensaernïol rhannau eraill o'r dref gyda'u ffenestri a'u huchder adeiladau. Mae gan rai o'r rhain ddefnyddiau eraill erbyn hyn ond maent wedi cadw eu cymeriad preswyl gan hwyluso'r trawsnewidiad i Morfa Mawr.



***Ffigur 22 Rhodfa'r Gogledd a Sgwâr Owain Glyndwr***

7.6.6 Mae'r strydoedd cyfochrog i'r gogledd a'r de (**Stryd Portland, Ffordd Portland, Stryd Cambrian**) yn rhai preswyl yn bennaf gydag adeiladau llai yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif a ffyrdd culach. Mae Stryd Portland, ynghyd â Stryd y Baddon i'r gogledd, yn ardal ag amrywiaeth o fannau addoli ar gyfer gwahanol enwadau, tra bod gan ben gorllewinol Ffordd Portland rai eiddo manwerthu ar y llawr gwaelod. Mae rhai adeiladau newydd o'r 20fed ganrif yn yr ardal hon.

7.6.7 Mae **Ffordd Alexandra** hefyd yn ffordd lydan ac yn llwybr traffig hynod o brysur ac mae'n cynnwys prif ganolfannau trafnidiaeth y gorsafoedd bysiau a threnau. Fe'i dangosir ar fap AO 1887 fel Lewis Terrace. Mae'r pen gorllewinol ar yr ochr ogleddol yn breswyl ar y cyfan ac yn newid i ardal fasnachol a manwerthu yn nes at yr orsaf drenau. Bu cryn dipyn o waith datblygu o ddiwedd yr 20fed ganrif ar hyd rhan ddwyreiniol y ffordd. Mae gan ochr ddeheuol y ffordd nifer o adeiladau dinesig allweddol megis yr Orsaf Reilffordd a'r hen ysgol.

## 7.7 Sgwâr Owain Glyndwr, Rhodfa'r Gogledd, Stryd Portland, Ffordd Alexandra a Ffordd y Môr – Nodweddion Allweddol

7.7.1 Mae nodweddion pwysig yr ardal hon yn cynnwys:

- Manwerthu a masnachol cymysg ar y prif strydoedd gydag ardal breswyl dawelach y tu ôl
- Amrywiaeth o arddulliau pensaernïol ond gyda graddfa a chymesuredd cyson
- Ffyrdd prysur gyda llawer o arwyddion stryd a pharcio stryd
- Hierarchaeth prif ffyrdd yn erbyn lonydd cefn a phensaernïaeth adeiladu gyfatebol
- Nodweddion pensaernïol preswyl megis: llinell adeiladu gyffredin, graddfa a chymesuredd, ffenestri bae, simneiau, rendr, manylion pensaernïol, portshys a chasys drysau, ffenestri a drysau traddodiadol
- Fflatiau preswyl uwchben eiddo manwerthu
- Datblygiad ymwthiol o ddiwedd yr 20fed ganrif
- Bargod llydan â bracedi pren wedi'i baentio
- Toeau llechi naturiol
- Ffasgia siopau modern wedi'u dylunio'n wael
- Coed stryd (yn eu lle ers map AO 1887 o leiaf)
- Ardal gyswllt rhwng yr Hen Dref a'r hyb trafnidiaeth, glan y môr a'r hyb trafnidiaeth, ardal breswyl a dinesig maestrefol Morfa Mawr a chanol y dref manwerthu a masnachol

DRAFT

## 7.8 Morfa Mawr, Ffordd y Gogledd, y Buarth ac Ardal Ffordd Llanbadarn

7.8.1 Datblygwyd y rhan fwyaf o'r ardal hon yn ystod hanner olaf y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, gan ddechrau gyda Neuadd y Dref newydd yn 1856 (a ddinistriwyd yn ddiweddarach gan dân a'i hailadeiladu), y Clafdy yn 1885 (wedi'i ddymchwel), Eglwys y Drindod Sanctaidd (1883 hyd 1886), a dechrau **Ffordd y Gogledd** erbyn 1889.

7.8.2 Datblygwyd rhannau preswyl yr ardal hon o fewn cyfnod byr o amser (tua'r 1890au a'r 1900au) ac felly mae cymeriad pensaernïol cyson trwy ran helaeth o'r ardal.

7.8.3 Roedd rhan ogleddol yr ardal faestrefol hon yn rhan o weledigaeth John Pollard Seddon ar gyfer glan y môr ond fel gyda llawer o'i gynlluniau ar gyfer y dref ni chafodd ei gwblhau.

7.8.4 Mae gan ochr dde-orllewinol **Morfa Mawr** eiddo preswyl gyda nodweddion tebyg i strydoedd cyfagos gyda thai wedi'u hadeiladu'n union i fyny at y palmant. Mae ochr ogledd-ddwyreiniol y

stryd yn mabwysiadu cynllun mwy eang, gan gynnwys gerddi blaen bach, er bod tai yn dal yn debyg o ran cymeriad, gyda rhesi teras uchel.

7.8.5 Mae gan ben gogleddol **Morfa Mawr** ar yr ochr orllewinol, gyferbyn â Rhes Caergrawnt, gyfran uchel o ddatblygiadau o ansawdd gwael yn dyddio o ddiwedd yr 20fed ganrif.

7.8.6 Yn **Ffordd y Gogledd** mae'r cymeriad maestrefol yn fwy amlwg gyda thai pâr neu dai sengl, wedi'u gosod mewn gerddi mwy ac yn edrych dros gaeau chwarae agored a golygfeydd o'r môr o'r lloriau uwch.



*Ffigur 23 Tai pâr maestrefol Ffordd y Gogledd gyda manylion o ansawdd uchel*

7.8.7 Mae cryn dipyn o fanylion pensaernïol gwreiddiol ac arddull wedi goroesi yn yr ardal hon sy'n helpu i ddangos yr amrywiaeth o arddulliau a deunyddiau oedd ar gael yn ystod y cyfnod hwn er gwaethaf homogenedd cyffredinol yr eiddo.

7.8.8 Mae adeiladau dinesig yn yr ardal hon yn cynnwys adeiladau crefyddol amrywiol, Neuadd y Dref 'newydd', y Clafdy (wedi'i ddymchwel), dwy hen ysgol (ac un fodern gyfredol), cyn gartref nyrsio, barics, a Thloty'r Undeb (wedi'i ddymchwel bellach.

7.8.9 Mae nifer o hen chwareli wedi'u lleoli ger yr ardal yma, a dyna ble y cloddiwyd y garreg ar gyfer datblygiad y dref. Mae'n anodd asesu eu hoedran ond mae'n debyg eu bod wedi dechrau yn y cyfnod canoloesol, pan fyddai cerrig wedi bod yn brif ddeunydd adeiladu, a

dangosir llawer ohonynt ar fapiau AO y 19eg ganrif fel 'hen chwareli'. Nid ydynt o fewn ffin yr ardal gadwraeth ond maent yn rhan o'i lleoliad ac yn berthnasol i hanes a datblygiad y dref.



*Ffigur 24 Neuadd y Dref 'newydd'*

7.8.10 Adnabyddir ardal ddiwydiannol fach o amgylch **Stryd y Dollborth** ac i'r de ohoni gan enwau ffyrdd a thafarndai: **Stryd Skinner**; The Skinners Arms; The Coopers PH. Unwaith eto mae'r tai yn yr ardal hon yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif ond maent ar raddfa a chynllun mwy crefftus. Mae hyn yn cynnwys rhesi hir o dai teras deulawr llai yn bennaf gyda llai o fanylion pensaernïol.

DRAFT

7.8.11 Roedd ardal y **Buarth**, fel brigiad creigiog, hefyd yn un o'r ffynonellau gwreiddiol o ddeunyddiau adeiladu ar gyfer y dref a datblygwyd yr ardal hon tua'r un adeg â **Morfa Mawr** a **Ffordd y Gogledd** gydag ychydig mwy o ddatblygiadau o ddechrau'r 20fed ganrif o bosibl.

7.8.12 Eglwys y Drindod Sanctaidd, a adeiladwyd rhwng 1883 a 1886, oedd dechrau datblygiad yn yr ardal hon. Mae'r eglwys yn Adeilad Rhestredig Gradd II (Cadw Cyf.: 10415) ac wedi'i lleoli mewn mynwent â rheiliau ym mhen gogleddol safle ynys ar y llethr. Adeiladwyd tai ar ddiwedd y 1890au a dechrau'r 20fed ganrif, eto ar sail brydles gan Gorfforaeth y Dref.

7.8.13 Mae gan **Ffordd Llanbadarn** hefyd fwyafrif o eiddo preswyl maestrefol o ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif gyda nodweddion tebyg i'r rhai yn rhan ogleddol yr ardal hon.

7.8.14 Unwaith eto, mae gan yr ardal i'r de o Ysbyty Bronglais o amgylch **Ffordd Caradog a Heol Dewi Sant** gymeriad maestrefol yr ardaloedd eraill ond mae'n ymddangos ei bod wedi parhau i ddatblygu i'r cyfnod rhwng y ddau ryfel byd er ei bod yn rhannu nifer fawr o nodweddion pensaernïol o'r cyfnod cynharach, megis parau o dai pensaernïol cyfatebol wedi'u gosod o fewn gerddi mwy ac wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd gyda gerddi blaen. Mae manylion pensaernïol da a nodweddion pensaernïol gwreiddiol wedi'u cadw, talcenni i'r blaen a strydoedd llydan yn creu cymeriad eang. Tai dwy neu dri llawr yn aml yw'r rhain gyda ffenestri bae uchder dwbl, portshys a simneiau amlwg.

## 7.9 Morfa Mawr, Ffordd y Gogledd, y Buarth ac Ardal Ffordd Llanbadarn – Nodweddion Allweddol

7.9.1 Mae nodweddion pwysig yr ardal hon yn cynnwys:

- Cymeriad maestrefol o ddiwedd y 19eg ganrif / dechrau'r 20fed ganrif
- Goroesiad nodweddion pensaernïol gwreiddiol, gan gynnwys drysau, ffenestri, portshys, cerrig addurniadol, teils a brics, gwaith haearn, estyll tywydd, simneiau, ac ati
- Tai wedi'u gosod yn ôl o'r palmant neu o fewn gerddi
- Parau o dai gydag arddull pensaernïol cyfatebol
- Nodweddion pensaernïol haearn gyr
- Manylion pensaernïol addurniadol o ansawdd uchel
- Gerddi blaen
- Golygfeydd allan tuag at yr arfordir / bae
- Datblygiad ochr bryn
- Datblygiad sy'n wynebu'r de-orllewin yn bennaf ar lethrau bryniau
- Graen datblygu canolig, lleiniau adeiladu mwy a ffyrdd llydan yn creu cymeriad mwy eang
- Ardal ddiwydiannol/crefftwyr fach
- Adeiladau 2 a 3 llawr
- Talcenni yn wynebu'r ffordd
- Ffenestri dormer traddodiadol
- Coed stryd
- Dodrefn stryd traddodiadol

DRAFT

- Waliau terfyn cerrig a brics
- Strydoedd eang
- Adeiladau dinesig a chrefyddol
- Man agored gwyrdd / Sgwâr o flaen neuadd y dref
- Chwareli
- Datblygiad o ansawdd gwael yn yr 20fed ganrif

### 7.10 Plascrug, Cae'r Ficerdy ac Ardal y Fynwent

7.10.1 Mae hon yn ardal gyda datblygiad gwasgaredig ac adeiladau mwy yn bennaf, digon o fannau gwyrdd agored ac ychydig o adeiladau preswyl.

7.10.2 Roedd **Plascrug / Rhodfa Plascrug** heb ei ddatblygu ar y cyfan yn ystod y cyfnod Fictoraidd hwyr ac mae'n parhau felly heddiw ac eithrio yn y pen gogleddol lle mae **stad manwerthu Rheidol** o'r 20fed ganrif a'r tai o ddechrau'r 20fed ganrif yng **Nghoedlan y Llwyfen** yn dylanwadu ar ei gymeriad. Roedd **Plascrug** wedi'i hen sefydlu fel llwybr cerdded poblogaidd erbyn 1880 ac wedi'i wella gyda phlannu coed a meinciau gan Gorfforaeth y Dref. Erys y rhodfa heddiw fel llwybr cerdded dymunol â choed ar ei hyd.

7.10.3 Cymharol ychydig o ddatblygiadau preswyl sydd yn yr ardal hon ar wahân i ddatblygiadau mewnlenwi modern yng **Nghoed y Buarth** ac ar ben uchaf **Plascrug**. Mae gan yr ardal i'r gogledd ac i'r dwyrain o ysgol gynradd Padarn Sant ardal fach o ddatblygiad preswyl ar ffurf filas mawr o ddiwedd oes Fictoria a dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r rhain wedi'u gosod mewn gerddi mawr iawn, ymhell yn ôl o'r ffordd ac yn cydweddu â chymeriad gwyrdd agored yr ardal hon.

7.10.4 Mae adeiladau eraill yn ddatblygiadau unigol mawr yn bennaf megis yr Ysgol Gelf Restredig



*Ffigur 25 Manylion addurniadol o ansawdd uchel, rheiliau haearn gyr a phriodweddau wedi'u gosod yn ôl o'r palmant*

DRAFT

Gradd II* (Cadw Cyf.: 10729, Labordai Cemegol Coffa Edward Davies yn wreiddiol, a adeiladwyd yn 1907) a fflatiau modern Brynderw a bloc swyddfeydd gerllaw. Mae'r Hen Ficerdy, fel y dangosir ar fapiau o'r 19eg ganrif, bellach yn swyddfeydd drws nesaf i Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant o ddechrau'r 20fed ganrif. Dywedir mai **Plascrug** (ysgol gynradd erbyn hyn) oedd safle castell Aber-rheidol ond mae'r tŵr sy'n weddill i'w weld yn fwy tebygol o fod yn ffolineb o'r 18fed ganrif ar safle plasdy canoloesol.

7.10.5 I'r de mae caeau chwarae mawr ac i'r de o'r rhain mae **Mynwent Aberystwyth** a agorwyd ym 1860. Mae'r fynwent yn fan cyhoeddus gwyrdd arall, wedi'i osod a'i blannu gan y garddwr James Dickson o Gaer. Mae wedi cadw'r giatiau haearn gwreiddiol (wedi'u hadfer) gan y Coalbrookdale Company 1860, a phorthdy ceidwad mynwent Tuduraidd (1873) wedi'i ddylunio wrth y fynedfa ar Ffordd Llanbadarn.

7.10.6 Ers i'r ardal ddatblygu ar ben rhan ddeheuol yr hen frigiad creigiog y Buarth, mae'r dopograffeg yn codi i fryn bach yng nghanol gogleddol yr ardal hon o amgylch adeilad Ysgol y Celfyddydau gan arwain at olygfeydd allan dros y dref ac i'r môr.

## 7.11 Plascrug, Cae'r Ficerdy ac Ardal y Fynwent – Nodweddion Allweddol

7.11.1 Mae nodweddion pwysig yr ardal hon yn cynnwys:

- Mannau gwyrdd agored mawr a gerddi aeddfed
- Datblygiad dwysedd isel eang
- Adeiladau unigol mawr
- Mynwent ac adeileddau cysylltiedig
- Rhodfa Plascrug
- Filas maestrefol mawr o ddiwedd y 19eg ganrif / dechrau'r 20fed ganrif
- Manylion pensaernïol fila
- Adeiladau addysgol
- Coed
- Mynediad cyhoeddus
- Golygfeydd dros y dref a thua'r môr
- Datblygiad o ansawdd gwael yn ddiweddarach yn yr 20fed ganrif

DRAFT

# 8. ASEDAU HANESYDDOL DYNODEDIG

## 8.1 Adeiladau Rhestredig

8.1.1 Ar hyn o bryd mae 249 o adeiladau rhestredig o fewn ardal gadwraeth Aberystwyth;

- 2 Radd I
- 14 Gradd II*
- 233 Gradd II

8.1.2 Y ddau adeilad rhestredig Gradd I yw Castell Aberystwyth (Cadw Cyf.: 10313) ac Adeilad yr Hen Goleg Prifysgol Cymru yn ymgorffori Tŷ'r Castell / Gwesty'r Castell (Cadw Cyf.: 10251).

8.1.3 Adeiladwyd Tŷ'r Castell gan John Nash yn 1794 fel fila hardd a chafodd ei ymestyn yn 1858 gan EH Martineau. Yn ddiweddarach comisiynwyd John Pollard Seddon i droi'r adeilad yn westy mawr crand ac agorodd Gwesty'r Castell ym Mehefin 1865. Aeth y gwesty i drafferthion ariannol yn fuan a gwerthwyd yr adeilad i Brifysgol Cymru ym Mawrth 1867. Comisiynwyd Seddon yn ddiweddarach i drawsnewid y gwesty a'i droi'n Goleg a agorodd yn Hydref 1872. Fodd bynnag, byrhoedlog oedd hwn hefyd, oherwydd yng Ngorffennaf 1885 difrodwyd yr adeilad yn ddifrifol gan dân. Atgyweiriwyd yr adeilad gan Seddon ac yn 1894 cafodd fila Nash ei ddymchwel a'i ddisodli.

8.1.4 Mae Castell Aberystwyth hefyd yn heneb gofrestredig (gweler isod).

## 8.2 Henebion Cofrestredig

8.2.1 Castell Aberystwyth yw'r unig heneb gofrestredig o fewn yr ardal gadwraeth. Mae'r heneb yn cynnwys adfeilion castell sy'n dyddio o'r cyfnod canoloesol. Fe'i cychwynnwyd gan Edmund o Gaerhirfryn yn 1277 fel rhan o raglen adeiladu cestyll Cymreig Edward I ac fe'i dinistriwyd gan Gruffydd ap Meredydd a Rhys ap Maelgwm yng ngwrthryfel y Cymry yn 1282. Yn 1403 cafodd ei gipio gan Glyndwr a'i ail-gipio gan Harri o Fynwy yn 1409. Erbyn 1636 roedd y castell yn adfail i raddau helaeth, ac yn 1637 sefydlwyd Bathdy Brenhinol yma. Erbyn 1800 roedd John Probart, pensaer o Amwythig, wedi cynllunio'r tir a oedd yn cynnwys safle eglwys bresennol Sant Mihangel a'r maes parcio. Erbyn hyn mae'r castell yn atyniad i dwristiaid ac yn safle adloniant.


DRAFFT



*Ffigur 26 Eglwys Sant Mihangel a'r Holl Angylion (Rhestredig Gradd II) i'w gweld trwy'r festri adfeiliedig (Adeilad Rhestredig Gradd II)*

DRAFT

***Ffigur 27 Asedau Treftadaeth Dynodedig yn Aberystwyth***



## 8.3 Asedau Dynodedig Eraill

8.3.1 I'r dwyrain o'r ardal gadwraeth, ond heb fod o'i mewn, mae tiroedd ac adeiladau Prifysgol Cymru: mae Plas Penglais, Campws Penglais a Champws Llanbadarn a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn sail ar gyfer Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Gradd II*.

8.3.2 Mae tref Aberystwyth o fewn parth 'pontio' Biosffer Dyffryn Dyfi Isaf. Mae Gwarchodfeydd Biosffer yn ardaloedd a gydnabyddir yn rhyngwladol o dan Raglen 'Dyn a'r Biosffer' UNESCO fel "safleoedd o ragoriaeth" i gydbwyso cadwraeth a datblygiad economaidd-gymdeithasol rhwng natur a phobl, ac archwilio ac arddangos dulliau arloesol fel safleoedd dysgu ar gyfer datblygu cynaliadwy. Dynodwyd rhan isaf Dyffryn Dyfi yn Warchodfa Biosffer am y tro cyntaf yn y 1970au. O dan feini prawf newydd cofrestrwyd ardal lawer mwy gydag UNESCO yn 2009. Mae'r Warchodfa Biosffer yn mesur 845 cilometr sgwâr ac mae 765 yn dir ac 80 yn fôr. Mae parth pontio yn ardal o ddefnydd tir trefol/gwledig mwy dwys, yn ogystal â'r môr agored, lle mae rheolaeth gynaliadwy a ffyrdd o fyw yn cael eu hyrwyddo a'u dilyn. Nid yw Biosffer yn ddynodiad statudol cyfyngol ond yn ardal fyw, weithiol gyda chyfleoedd ar gyfer arfer datblygiad cynaliadwy.

## 8.4 Adeiladau o Ddiddordeb Lleol

8.4.1 Mae dwy lefel o adeiladau o ddiddordeb – y rhai a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig lleol (gweler https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest ) a'r rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

8.4.2 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r meini prawf ar gyfer dewis asedau gael eu llunio gan yr awdurdod lleol ond gellir eu seilio ar ganllawiau Cadw. Dylai'r dewis hefyd fod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol. Yna gall awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau i'w diogelu a'u gwella trwy bolisïau Cynllun Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

8.4.3 Mae adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardal gadwraeth yn aml yn adeiladau traddodiadol sydd â gwerth hanesyddol, pensaernïaeth neu fanylion o safon. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi cael eu newid mewn rhyw ffordd neu nad oes lle i'w gwella, dim ond y byddai eu colli yn effeithio'n negyddol ar gymeriad neu olwg cyffredinol yr ardal ddynodedig. Ni ddylid edrych yn negyddol ar adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gan fod cyfleoedd yn aml i wella adeilad neu strwythur neu adfer nodweddion. Gall peidio â'u cynnwys olygu bod sawl elfen o adeilad traddodiadol wedi'u colli neu fod ei gyfanrwydd wedi'i


DRAFT

effeithio'n ddifrifol trwy newidiadau diweddarach. Ni ddylai peidio â'u cynnwys, ynddo'i hun, fod yn rheswm dros roi caniatâd i ddymchwel neu dros ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o ansawdd gwael.

8.4.4 O fewn ardal gadwraeth Aberystwyth mae llawer o adeiladau sydd wedi cadw eu nodweddion pensaernïol gwreiddiol, sydd ag elfennau o ddatblygiad hanesyddol blaenorol wedi'u hymgorffori yn eu gwneuthuriad, neu sy'n cyfrannu at ddeall datblygiad hanesyddol y dref. Mae'r adeiladau hyn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

DRAFFT

***Ffigur 28 Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig i'r dwyrain o ganol tref Aberystwyth***



## 9. CYMDEITHASAU HANESYDDOL

### 9.1 Pobl

9.1.1 Mae nifer o ffigurau hanesyddol pwysig yn gysylltiedig â chreu a datblygu Aberystwyth:

- Edmund o Gaerhirfryn (1245 – 1296) adeiladodd y castell yn Aberystwyth fel rhan o ymgyrch Edward I i adeiladu cestyll Cymreig. Edmund oedd pedwerydd mab (ond ail i oroesi) y Brenin Harri III ac Iarll cyntaf Caerhirfryn. Yn 1252 cafodd ei enwebu gan y Pab Innocent IV yn Frenin Sisili ond ni chymerodd feddiant o'r deyrnas honno erioed. Yn 1271 cymerodd Edmund ran yn y nawfed groesgad, y groesgad ganoloesol fawr olaf i'r Wlad Sanctaidd, a dyna pam mae'n debyg iddo dderbyn y llysenw 'crouchback' neu 'cross back' – nid oherwydd crwmp ond oherwydd bod ganddo hawl i wisgo croes wedi'i bwytho yng nghefn ei ddillad. Daeth ei frawd Edward yn Frenin yn 1274 a chefnogodd ei frawd yn ffyddlon yn ei ymdrechion, gan gynnwys rhyfeloedd yn yr Alban a Chymru.

- Mae natur bictiwrésg Aberystwyth wedi cael ei dal gan artistiaid niferus, gan gynnwys: JMW Turner, Edmund Marriner Gill, H Humphries, Thomas Girtin, Henry Gastineau, Julius Caesar Ibbetson, John Sell Cotman, Mary Lloyd Jones, ac wrth gwrs y Rheilffyrdd celfyddyd poster eiconig Rheilffyrdd Prydain gan Leonard Richmond, yn ogystal â llawer o rai eraill. Mae gan y dref dair gwaith gan y cerflunydd Eidalaidd Mario Rutelli; y Gofeb Ryfel ar y Promenâd; Cofeb Capel y Tabernacl ar Stryd Powell; a cherflun Edward VIII fel Tywysog Cymru yn yr Hen Goleg (yr unig gerflun o Edward VIII ym Mhrydain). Mae pob un yn Adeiladau Rhestredig Gradd II.



*Ffigur 29 Cofeb ryfel Mario Rutelli yn Aberystwyth*

DRAFT

- Mae sawl pensaer adnabyddus wedi gweithio yn Aberystwyth ac wedi cyfrannu at ei chymeriad. Mae'r rhain yn cynnwys: John Nash; EH Martineau; John Pollard Seddon; Eugenius Birch ac eraill. Mae'r triptych mosaig ar ddiwedd yr Hen Goleg / Gwesty'r Castell gan CF Voysey.

9.1.2 Mae astudiaeth nodweddion Cadw yn nodi'r canlynol wrth sôn am y dylanwad a gafodd teuluoedd lleol pwysig ar ddatblygiad Aberystwyth. Daeth Aberystwyth yn gyrchfan ffasiynol yn y 18fed a'r 19eg ganrif ac adeiladodd llawer o foneddigion lleol a chenedlaethol dai mawr yn y dref:

- 'Roedd y teulu Powell o Nanteos yn un o'r teuluoedd lleol blaenllaw ac, fel deiliaid eiddo sylweddol yn y dref, gwnaethant ddylanwadu ar rai agweddau ar ei datblygiad yn ystod degawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg; yn arbennig ym Maes Lowri, lle yr adeiladwyd Ystafelloedd Cyfarfod yn 1820, a dwy res o dai tua 1827. Roedd yr ystâd hefyd yn berchen ar eiddo ar Heol y Wig a'r Porth Bach, yn ogystal ag yn ardaloedd y Stryd Newydd a Stryd y Farchnad, ac roedd yn adeiladu yma rhwng 1809 a 1832 '

DRAFT




***Ffigur 30 Crynfryn House***

- 'Chwaraeodd ystâd Gogerddan rôl flaenllaw hefyd ym materion y dref. Roedd gan y teulu Pryse o Gogerddan dŷ tref yma yn yr ail ganrif ar bymtheg .....ar gornel y Porth Bach a Heol y Wig .'
- Roedd gan y teulu Pugh o Abermad (San Steffan) dŷ tref ar Stryd y Bont.
- Adeiladwyd tŷ ar gyfer teulu Bonsall o Fronfraith yn y Porth Bach, a gafodd ei adnabod wedi hynny fel Crynfryn House
- Adeiladwyd Tŷ'r Castell ar gyfer Uvedale Price gan John Nash – 'adeilad hynod pictiwrésg ac mae'n debyg iddo chwarae rhan bwysig wrth wneud Aberystwyth yn gyrchfan i dwristiaid'.

### 9.2 Digwyddiadau a Thraddodiadau

9.2.1 Un o'r traddodiadau lleol mwyaf hynod a mwyaf adnabyddus yw 'cicio'r bar' ym mhen gogleddol y Promenâd am lwc. Mae'r 'bar' yn far metel llorweddol syml ar ben wal goncrit a gallwch ei gicio gyda naill ai un neu'r ddwy droed – y ddwy droed, wrth gwrs, yn fwy lwcus ond hefyd yn fwy peryglus! Does neb wir yn gwybod o ble y daeth y traddodiad ac mae damcaniaethau amrywiol, ond ni all fod yn llawer hŷn nag oes y Promenâd.

9.2.2 Mae'r Ffair Aeaf a'r marchnadoedd ym mis Tachwedd yn dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol (cofnodion o'r 13eg ganrif o leiaf) ac arferid eu galw'n ffeiriau llogi lle byddai pobl yn dod o hyd i waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

9.2.3 Traddodiad nad yw bellach yn cael ei arfer ond sydd wedi'i ymgorffori mewn llên gwerin Cymru yw seinio'r 'bangu'. Yn 1911 cofnodwyd, 'Pan gynhelir angladd yn Aberystwyth, yn Sir Aberteifi, mae'n arferiad i Grïwr y Dref fynd trwy'r strydoedd gan ganu cloch fach, ychydig cyn yr orymdaith angladdol. Mae hwn yn arferiad hynafol iawn a fu unwaith yn gyffredin iawn trwy Gymru, ac yn y cyfnod cyn y Diwygiad, cadwyd y gloch gorff hon a elwid " bangu," yn holl Eglwysi Cymru, a phan oedd angladd i'w gynnal byddai'r clochydd yn mynd ag ef i dŷ yr ymadawedig. Pan ddechreuodd yr orymdaith, canwyd salm, ac yna byddai'r clochydd yn canu ei gloch yn am beth amser, ac wedyn bob hyn a hyn, nes i'r angladd gyrraedd yr Eglwys.'

9.2.4 Credir bod sawl teulu yn Aberystwyth yn dweud iddynt fod yn ddisgynyddion Meddygon Myddfai ac Arglwyddes Llyn y Fan Fach, ac felly bod ganddynt waed tylwyth teg yn llifo trwy eu gwythiennau.

9.2.5 Hen ofergoeledd neu gred o Aberystwyth yw: 'Mae arllwys halen yn arwydd o ffraeo. Gweini halen i rywun arall, yw ei weini â thristwch.'

DRAFT

9.2.6 Chwedl afon: 'Mae Hafren, Gwy, a Rheidol yn codi ar Fynydd Pumlumon. Cytunodd yr afonydd hyn, a elwir yn dair chwaer, i ymweld â'r môr yn y bore. Cododd Hafren yn gynnar yn y bore, a chymerodd gwmpawd trwy sir Amwythig, Swydd Gaerwrangon, a Swydd Gaerloyw. Cododd Gwy yn hwyrach ac aeth trwy siroedd Maesyfed a Henffordd, gan ymuno â'i chwaer ger Cas-gwent a mynd law yn llaw i'r cefnfor. Mwynhaodd Rheidol ei breuddwydion a chysgu mor hwyr nes iddi gael ei gorfodi i gymryd y ffordd agosaf i Aberystwyth.'

## 10. HANESION CUDD

### 10.1 Potensial Archeolegol Uwchben y Ddaear

10.1.1 Mae gan y castell werth tystiolaethol uwchben y ddaear ac o dan y ddaear o bosibl. Mae'r heneb o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei photensial i wella ein gwybodaeth am arferion amddiffynnol canoloesol. Mae'r heneb mewn cyflwr da ac yn grair pwysig o'r dirwedd ganoloesol. Mae'n cadw potensial archeolegol sylweddol, gyda thebygolrwydd cryf o bresenoldeb tystiolaeth strwythurol a dyddodion cysylltiedig cyfan.

10.1.2 Disgrifiwyd uchod y tebygolrwydd o fodolaeth ffabrig cynharach o'r 18fed ganrif o fewn ffasadau ac ailadeiladau diweddarach, yn enwedig yn ardal yr Hen Dref. Ymhlith yr adeiladau y cofnodir eu bod â tharddiad cynharach, ac a allai gynnwys ffabrig cynharach naill ai uwchben neu o dan y ddaear, mae:

- Old Black Lion Hotel, Rhif 16 Stryd y Bont – tua 1700 ac ail-ffryntiad Sioraidd
- Yr Hen Farchnad Ŷd, ar gyffordd y Porth Bach a Stryd y Farchnad – fe'i crybwyllwyd yn 1738 a'i dynnu i lawr yn 1870
- The Gogerddan Arms, y Stryd Fawr (Neuadd Padarn) – yn cael ei ystyried yn westy hynaf y dref. Yn gysylltiedig â'r teulu bonheddig lleol, teulu Gogerddan, roedd y dafarn eisoes yn nodedig yn y 1730au (adeiladwyd 1727?)
- Neuadd y Dref Aberystwyth – adeiladwyd ar ddiwedd y 17eg ganrif a'i dymchwel yn 1855
- Heol y Wig – tŷ ar gornel Heol y Wig a'r Stryd Fawr. Wedi'i ddymchwel. Diwedd y 17eg ganrif / dechrau'r 18fed ganrif
- Neuadd y Ddinas yn Aberystwyth, ar gyffordd y Stryd Fawr a Heol y Wig – fe'i crybwyllwyd gyntaf yn 1690 a'i disodli yn 1770 gan ail neuadd ar yr un safle. Cafodd ei thynnu i lawr yn 1855 er mwyn codi tŵr cloc
- 39-41 y Stryd Fawr – gwreiddiau diwedd yr 17eg ganrif, ail-ffryntiad a newidiadau modern ar ddechrau'r 20fed ganrif

DRAFT

- The Old Bank House, 14 Stryd y Bont – wedi'i agor yn 1760 roedd yn gartref i'r banc cyntaf yn Aberystwyth
- 12 a 26 Heol y Wig – wedi'i ddangos ar fap tua1790 (adeiladau eraill yn Heol y Wig wedi'u dangos ar fap tua 1797)
- 51 y Stryd Fawr – wedi'i ddangos ar fap tua1790
- 12, 14, 15, 17, 19, 23, 26, 35, 45, 47, 49 a 51 Stryd y Bont – wedi'u dangos ar fap tua1790
- 44 Heol y Frenhines – wedi'i ddangos ar fap tua 1790

10.1.3 Yn y dref ei hun mae enghreifftiau gwych o arddulliau pensaernïol o ddiwedd y cyfnod Sioraidd, Fictoraidd ac Edwardaidd ac mae llawer o nodweddion pensaernïol gwreiddiol wedi'u cadw o'r cyfnodau hyn. Mae'r rhain yn darparu tystiolaeth o grefftwaith, y defnydd o ddeunyddiau a newidiadau mewn ffasiynau pensaernïol yn ogystal â'u gwerth esthetig.

10.1.4 Mae dwysedd y defnydd tir dros gyfnod hir â'r potensial ar gyfer dilyniant cymhleth o weddillion archeolegol uwchben y ddaear o fewn strwythurau presennol ac o dan y ddaear. Mae gwybodaeth bresennol yn awgrymu bod unrhyw olion yn debygol o fod yn weddillion ynysig ac yn anodd eu dehongli. Gall ardaloedd iard gefn roi tystiolaeth sydd wedi'i chadw'n well o ddefnydd tir blaenorol.




***Ffigur 31 Safle hen Neuadd y Dref ar gyffordd y Stryd Fawr a Heol y Wig***

DRAFT



***Ffigur 32 Gall ardaloedd iard gefn, yn enwedig yn yr hen dref, ddatgelu tystiolaeth o ddefnydd tir blaenorol***

DRAFT

### 10.2 Potensial Archeolegol o Dan y Ddaear

10.2.1 Ychydig iawn o ymchwil archeolegol sydd wedi bod yn y dref. Dim ond ychydig o ymchwiliadau bach sydd wedi'u cynnal gydag ychydig o ganlyniadau diriaethol. Mae hyn yn golygu nad oes llawer o dystiolaeth wirioneddol i gefnogi rhai honiadau ynghylch cynllun y dref ganoloesol ac maent yn aml yn seiliedig ar deipoleg a gwybodaeth a ddysgwyd o fannau eraill. Nid yw hyn i ddweud nad yw rhai o'r ffactorau y cymerwyd eu bod yn wir yn gywir ond yn hytrach i nodi bod potensial ar gyfer tystiolaethu a gwella'r cofnod.

10.2.2 Y dref gaerog ganoloesol yw calon Aberystwyth. Er y tybir yn gyffredin y gellir olrhain llinell y mur canoloesol yn llinell strydoedd modern, efallai nad yw hyn yn wir o reidrwydd. Yn ystod y 1950au nodwyd union linell mur y dref ar gyffordd Stryd y Ro a Than-y-Cae pan dorrwyd ffos ar gyfer prif bibell ddŵr. Mewn mannau eraill ni wyddys yr union linell. Mae'n bosibl ei bod wedi'i darganfod yn y 1970au ar ochr ogleddol y dref yn ystod gwaith ffordd yn croesi Heol y Wig ar linell yn dilyn canol Heol y Brenin yn fras. Mae'n debygol bod hen fur y dref wedi'i hawlio gan y môr i'r gorllewin. Serch hynny, mae llawer o linell dybiedig y mur yn rhedeg o dan ffyrdd a thrwy ffiniau eiddo cefn a all olygu goroesiad cymharol dda o dan y ddaear. Mae'n debyg bod ffos lydan o flaen y mur, a allai fod yn ffynhonnell dda o ddeunydd tomenni canoloesol a dyddodion dwrlawn.

10.2.3 Tybir hefyd bod y gyffordd onglog rhwng y ddwy brif stryd ganoloesol, y Stryd Fawr a Stryd y Bont / Heol y Wig fel y mae oherwydd hwn oedd safle'r farchnad. Unwaith eto, nid oes tystiolaeth gadarn ar gyfer y casgliad hwn.

10.2.4 Mae dyddiad cynllun strydoedd eraill yn ardal yr Hen Dref hefyd yn amheus. Mae'n debygol bod llawer o'r strydoedd hyn wedi'u cynllunio yn ystod y cyfnod canoloesol ar y patrwm grid traddodiadol ond nid oes tystiolaeth archeolegol i gefnogi hyn.

10.2.5 Mae'r un broblem yn codi gyda lleoliad pyrth y dref ganoloesol. Mae'r enwau lleoedd modern yn golygu bod y rhan fwyaf o awdurdodau wedi lleoli pyrth y dref ym mhen dwyreiniol y Stryd Fawr, pen deheuol Stryd y Bont a phen dwyreiniol y Stryd Fawr Fach (y Porth Bach erbyn hyn). Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn awgrymu bod lleoliad y Porth Bach i'w weld yn annhebygol oherwydd ei agosrwydd at y porth ar y Stryd Fawr, ac y byddai lleoliad mwy amlwg ar gyfer trydydd porth tref ar Heol y Wig ger y môr. Mae gan safleoedd pyrth y dref hefyd y potensial i gynhyrchu olion strwythurol sylweddol, er efallai eu bod wedi'u lladrata neu eu cwtogi gan ddatblygiadau diweddarach.

10.2.6 Mae cynllun presennol y dref yn awgrymu bod y lleiniau bwrdeisi canoloesol wedi goroesi mewn llawer o ardaloedd. Unwaith eto, nid oes unrhyw dystiolaeth archeolegol i gefnogi hyn ac mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar wybodaeth am gynllun tref canoloesol a gafwyd o fannau eraill a dehongli mapiau hanesyddol a chyfredol.

10.2.7 Mae olion canoloesol mwy pendant wedi'u nodi mewn ychydig o leoedd yn unig:

- Yn Stryd yr Efail cofnodwyd draen ganoloesol fel arsylwad maes yn 1979
- Mae Our Ladies Mill, Heol Minafon wedi'i nodi fel melin ŷd wedi'i hadeiladu o gerrig, a adeiladwyd tua 1530 ac a ailadeiladwyd yn y 19eg ganrif a chyfeirir ati mewn sawl testun hanesyddol
- Odyn sychu ŷd ganoloesol o ffurf ansicr, heb ei chloddio a heb ei lleoli, wedi'i chrybwyll mewn cofnodion yn ymwneud â Chastell Llanbadarn (Aberystwyth) yn 1298-1300, 1300, ac 1301/2

10.2.8 O amgylch Maes Lowri ychydig a wyddys am ddefnydd tir yn y cyfnod canoloesol, ac mae potensial i wybodaeth archeolegol ddeillio o'r ardal hon.

10.2.9 O dan Stryd y Ro mae lleoliad tebygol yr harbwr canoloesol ac mae potensial i weddillion sy'n gysylltiedig â'r harbwr cynnar hwn, a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ef, oroesi yma.

10.2.10 Ar hyd glan y môr mae potensial sylweddol ar gyfer dyddodion palaeo-amgylcheddol. Mae'n annhebygol bod unrhyw ddyddodion cynnar wedi goroesi ar ochr y tir oherwydd ailddatblygu

DRAFT

dwys diweddarach ac erydiad arfordirol (cofnodir i gapel canoloesol gael ei ddinistrio yma gan y môr yn y 18fed ganrif).

10.2.11 O amgylch Morfa Mawr, Ffordd y Gogledd, y Buarth ac Ardal Ffordd Llanbadarn mae potensial ar gyfer tystiolaeth o weithgarwch cyn-hanesyddol. Mae'n debygol bod tystiolaeth o chwarela canoloesol yma wedi cael ei dinistrio gan weithgarwch diweddarach. Mae hefyd rhywfaint o botensial ar gyfer goroesiad safleoedd diwydiannol bach diweddarach o amgylch ardal Ffordd y Gogledd isaf a Stryd Skinner.

10.2.12 Mae'n bosibl mai tystiolaeth o dan y ddaear yw'r unig ffordd o gael dealltwriaeth o'r amrywiol adeiladau dinesig a gollwyd o'r 19eg ganrif yn ardal Ffordd Llanbadarn a Phenglais.

## 11. BIOAMRYWIAETH

### 11.1 Isadeiledd Gwyrdd


11.1.1 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys ychydig o fannau gwyrdd agored o fewn y dref – yn arbennig tir y castell ac o amgylch Eglwys Sant Mihangel, yr ardal gyferbyn â Neuadd y Dref, a rhai coed stryd mewn ardaloedd arbennig o'r dref. Mae gerddi preifat yn y gogledd a'r dwyrain hefyd yn darparu rhyddhad rhag datblygiad, ac mae'n debyg bod gan y caeau chwarae, y fynwent a Rhodfa Plascrug o fewn Ardal Plascrug, Cae'r Ficerdy a'r Fynwent well potensial o ran bioamrywiaeth. Mae'r mannau agored o flaen Ffordd y Gogledd yn cynnwys gardd fioamrywiaeth a lawnt fowlio.

### 11.2 Gwarchodfeydd Natur Lleol


11.2.1 Mae dwy warchodfa natur leol yn rhan o leoliad Ardal Gadwraeth Aberystwyth, sef Pen Dinas a Thanybwlch i'r de a Pharc Natur Penglais i'r gogledd. Mae Pen Dinas a Thanybwlch yn cynnwys Bryngaer o'r Oes Haearn, dôl wair, afon, traeth, tafod graean â llystyfiant, hen drac rheilffordd a hen safle tirlenwi. Coetir llydanddail a hen chwarel yw Penglais ac roedd y goedwig yn rhan o Ystâd Penglais o'r 18fed ganrif.

DRAFT

***Ffigur 33 MapDataCymru (data 2018) yn dangos y gorchudd coed yn Aberystwyth***



*Ffigur 34 Map yn dangos Gorchmynion Cadw Coed, Perllannau Traddodiadol a Choetir Hynafol*





*Ffigur 35 Mae coed yn rhan bwysig o'r strydlun mewn llawer o ardaloedd*

DRAFT

### 11.3 Gorchudd Coed

11.3.1 Mae MapDataCymru (data 2018) yn dangos data Cyfoeth Naturiol Cymru ar Orchudd Coed Trefol. Mae'n cynnwys nifer o grwpiau o orchudd coed o fewn a gerllaw'r ardal gadwraeth, ac mae hefyd yn dangos data pwynt ar gyfer coed unigol a allai fod yn bwysig i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Yn anffodus, dim ond ardaloedd nad ydynt yn goetiroedd y mae'r map yn eu cynnwys, felly ni ellir bod yn bendant ynghylch ardaloedd coediog pwysig. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys yr ardal o goetir i'r gogledd-ddwyrain o'r dref y gellir ei hystyried hefyd yn bwysig i leoliad yr ardal gadwraeth.

## 12. GWERTH CYMUNEDOL

### 12.1 Cyflwyniad

12.1.1 Mae'r ymgynghoriad cymunedol wedi dangos bod balchder amlwg yn y lle a bod gwerth yn cael ei roi ar hanes a threftadaeth adeiledig Aberystwyth.

12.1.2 Mae gan Asesiad Cymeriad Tirwedd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr ardal hon (NLCA23: Bryniau a Dyffrynnoedd Rheidol ac Ystwyth) grynodeb defnyddiol o'r diddordeb cymunedol ac yn ein hatgoffa o ddyfnder amser: "Tref brifysgol a gweinyddol yw Aberystwyth. Mae caer Oes yr Haearn, Pen Dinas, sy'n edrych dros y dref, yn ein hatgoffa y bu anheddu a chymdeithasu yma ers cyn cof. Ers diwedd y 19eg ganrif, mae Aberystwyth wedi tyfu'n ganolfan ddiwylliannol a deallusol o bwys, yn gartref Prifysgol Aberystwyth, y Llyfrgell Genedlaethol,

12.1.3 Mae'r gwefan The Guide to Aberystwyth (www.aberystwythguide.org.uk) yn rhestru dros 70 o glybiau a grwpiau cymunedol.

12.1.4 Mae Infoengine (https://en.infoengine.cymru) yn rhestru 419 o wasanaethau cymunedol o fewn milltir i Aberystwyth.

12.1.5 Mae ystod eang o ddefnyddiau dinesig, cymunedol, hamdden a manwerthu i'r adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth. Mae twristiaid dros y canrifoedd wedi cael eu denu i'r ardal oherwydd ei phensaernïaeth a'i lleoliad.



***Ffigur 36 Mae twristiaid a phobl leol fel ei gilydd yn gwerthfawrogi'r Promenâd ar ddiwrnod heulog, gan ddangos ei werth cymunedol***

## 13. MATERION—DADANSODDIAD CGCB

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
| --- | --- |
| Hanes hir<br>Ansawdd da ac amrywiaeth o fanylion pensaernïol Sioraidd, Fictoraidd ac Edwardaidd<br>Cymeriad pensaernïol cryf<br>Adeiladau tirnod unigryw<br>Rhai ardaloedd masnachol / manwerthu llewyrchus<br>Maestrefi wedi'u cynnal a'u cadw'n dda<br>Cymuned weithgar<br>Lleoliad<br>Dalgylch – cyfleusterau canol dref tua 2 awr yn unig<br>Cyfleusterau addysgol a diwylliannol<br>Yn boblogaidd gyda thwristiaid | Cyflwr gwael rhai adeiladau a manylion pensaernïol<br>Fflatiau gwag uwchben siopau / siopau gwag<br>Hysbysebu ac arwyddion siop amhriodol<br>Parcio arhosiad hir cyfyngedig i drigolion ac ymwelwyr o fewn pellter cerdded i'r dref<br>Arwyddion ac annibendod stryd / priffyrdd<br>Diffyg cynllun blaenoriaeth strategol ar gyfer gwario cyllid<br>Rhai ardaloedd wedi'u hesgeuluso yng nghanol y dref<br>Diffyg rheolaeth gaeth dros newidiadau i adeiladau nad ydynt yn rhestredig<br>Rhai adeiladau amhriodol o'r 20fed ganrif<br>Diffyg ymgysylltu â rhai perchnogion eiddo<br>Diffyg cysylltiad â gweithwyr proffesiynol a chrefftwyr cadwraeth |
| **CYFLEOEDD** | **BYGYTHIADAU** |
| Ymchwiliad archeolegol, yn enwedig o'r dref ganoloesol<br>Hyfforddiant perchnogion eiddo mewn arferion cadwraeth da wedi'i ategu gan arian grant<br>Arallgyfeirio cynnyrch trwy'r defnydd arloesol o siopau gwag<br>Adfer nodweddion pensaernïol a gollwyd<br>Mwy o botensial twristiaeth<br>Ymgysylltiad penseiri lleol mewn dylunio modern llawn dychymyg o ansawdd uchel<br>Datblygu twristiaeth treftadaeth | Colli manylion pensaernïol / adeiladau/ffabrig hanesyddol oherwydd diffyg cynnal a chadw<br>Diffyg cydnabyddiaeth a cholli ffabrig hanesyddol cynharach wedi'i ymgorffori o fewn strwythurau diweddarach<br>Colli dodrefn stryd, wynebau a goleuadau traddodiadol<br>Cyflwyno pensaernïaeth fodern amhriodol<br>Erydiad arfordirol a stormydd<br>Colli mannau gwyrdd a choed stryd<br>Dewisiadau lliw amhriodol |

DRAFT




DRAFT

# ABERYSTWYTH

## Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Mawrth 2024

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Aberystwyth**

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Y Cynllun Rheoli

1.1.1 Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr arfarniadau ac yn nodi ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal. Mae'r cynllun yn nodi amcanion rheoli realistig, gan ystyried adnoddau a chyfleoedd ariannu a pholisïau ar gyfer gwella.

# 2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

## 2.1 Cyflwyniad i Gyfarwyddiadau Erthygl 4

2.1.1 Mynegir diddordeb arbennig ardaloedd cadwraeth yng nghymeriad a golwg yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. I gyflawni hyn, ceir rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

2.1.2 Mae rheolaethau cynllunio ychwanegol y gellir eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Gelwir y rheolaethau arbennig hyn yn Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Penderfynir arnynt gan bob awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar ba elfen arbennig o'r ardal gadwraeth y maent am ei diogelu. Maent yn fwyaf tebygol o effeithio ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i du allan eu hadeilad. Gall y rhain gynnwys cladin, newid drysau neu ffenestri, a gosod dysglau lloeren a phaneli solar.

2.1.3 Ni fwriedir i'r rheolaethau hyn atal newid; yn hytrach, maent yn annog datblygiadau sy'n gydnaws â'r ardal neu sy'n gwella ei chymeriad arbennig. Gellid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i helpu i reoli newidiadau ar raddfa fach na fyddai'n cael fawr o effaith yn unigol, ond gyda'i gilydd gallent effeithio ar olwg neu gymeriad ardal gadwraeth.

2.1.4 Mae Erthyglau 4(1) a 4(2) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddiadau sy'n tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys rhai mathau o adeiladau neu ardaloedd penodol.

2.1.5 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) i dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dir ac adeiladau ond rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

2.1.6 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gymwys i adeiladau ac adeileddau domestig, ond dim ond i'r rhannau hynny sy'n wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd neu fannau agored. Gall awdurdodau lleol eu cadarnhau unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i hysbysebu'n lleol ac mae rhybudd wedi'i

DRAFT

gyflwyno i drigolion. Yn ogystal, gallai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn gymwys hefyd i ddymchwel y cyfan neu ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu a allai fod yn gysylltiedig ag eiddo domestig neu beidio.

2.1.7 Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yw'r cyfarwyddyd a ddefnyddir amlaf ar gyfer rheoli o fewn ardaloedd cadwraeth. Fe'u cymhwysir yn aml mewn senario 'ffon ac abwyd', lle mae rheolaethau yn cael eu cymhwyso trwy'r system gynllunio a'r defnydd o Gyfarwyddyd ond mae cymhellion yn cael eu cymhwyso trwy system grantiau sy'n berthnasol i newid neu gynnal a chadw nodweddion traddodiadol.

2.1.8 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn cynnwys newid i Gyfarwyddiadau Erthygl 4, ond ar y dyddiad ysgrifennu nid yw hyn wedi dod i rym eto. Mae'r newid hwn yn dileu Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) ac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud Cyfarwyddiadau heb droi at Weinidogion Llywodraeth Cymru. Felly, bydd dau fath o Gyfarwyddyd a'r ddau yn cael eu cyflwyno o dan Erthygl 4(1) o'r Gorchymyn:

- **Cyfarwyddyd Uniongyrchol** pan fydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith ac yna'n cael eu cadarnhau gan yr ACLl yn dilyn ymgynghoriad;

DRAFT




*Ffigur 1 Mae colli nodweddion pensaerniol traddodiadol megis ffenestri a drysau yn cael effaith niweidiol ar gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth*

- **Cyfarwyddyd Anuniongyrchol** lle mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan yr ACLl.

### 2.2 Aberystwyth

2.2.1 Nid oes Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar waith yn Aberystwyth ar hyn o bryd.

2.2.2 Mae nodweddion pensaernïol traddodiadol fel y canlynol wedi'u nodi fel rhai hynod bwysig i gymeriad Ardal Gadwraeth Aberystwyth: simneiau, drysau a fframiau drysau, portshys, ffenestri, waliau terfyn, manylion haearn gyr, llinellau toeau a ffenestri dormer.

2.2.3 Mae'r arfarniad wedi nodi bod o nodweddion pensaernïol traddodiadol wedi cael eu colli dros y tymor hir ar eiddo domestig megis drysau a ffenestri a bod hyn, gyda'i gilydd, wedi erydu cymeriad pensaernïol yr ardal.

2.2.4 Er bod rendr wedi'i baentio yn nodwedd arbennig o gryf o'r ardal gadwraeth, mae rhai eiddo sydd wedi dewis lliwiau amhriodol. Yn ogystal, mae eiddo pwysig nad ydynt wedi'u rendro ac sydd â nodweddion pensaernïol arwyddocaol, megis manylion brics cyferbyniol neu waliau cerrig naturiol, a byddai rheolaeth dros y defnydd o rendr ar yr eiddo yma yn ddymunol.

2.2.5 Mae ffenestri dormer traddodiadol yn elfen bwysig o linell doeau Aberystwyth ond mae nifer o ffenestri dormer modern a goleuadau to sy'n anghydnaws â chymeriad yr adeilad unigol a phensaernïaeth yr ardal ehangach. Mae ffenestri dormer a goleuadau to hyd at faint penodol yn ddatblygiadau a ganiateir ar eiddo preswyl nad ydynt yn rhestredig.

2.2.6 Mae nifer o ddysglau lloeren i'w gweld trwy'r ardal gadwraeth sy'n amharu ar gyfansoddiad pensaernïol yr adeiladau y maent wedi'u gosod arnynt. Mae dysglau lloeren yn dechnoleg gymharol hen erbyn hyn ond mae llawer o bobl eu hangen o hyd. Mae'n debygol bod rhai o'r rhai presennol yn segur ond heb gael eu symud ymaith. Gallai Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) reoli lleoli a gosod unrhyw ddysglau newydd.

2.2.7 O fewn y maestrefi mae waliau terfyn a rheiliau haearn yn rhan allweddol o gymeriad yr ardaloedd hyn. Mae newid y rhain yn ddatblygiad a ganiateir ar hyn o bryd ac mewn rhai achosion collwyd deunyddiau a nodweddion traddodiadol.

2.2.8 Tra bod llawer o adeiladau a fflatiau masnachol sydd naill ai wedi neu mewn perygl o golli nodweddion pensaernïol, mae newidiadau i'r adeiladau hyn eisoes yn cael eu rheoli trwy'r broses gynllunio.

DRAFFT

## 2.3 Argymhelliad – Yn dibynnu ar ba ddeddfwriaeth sydd mewn grym adeg mabwysiadu

2.3.1 Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Aberystwyth. Ni ellir cymhwyso hyn yn ôl-weithredol ac mae ond yn gymwys i dai annedd a drychiadau sy'n wynebu priffordd, man agored neu ddyfrffordd. Dylid cymhwyso Erthygl 4(2) i'r hawliau datblygu a ganiateir canlynol:

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd (i gynnwys newidiadau i ffenestri, newidiadau i ddrysau, rendro, neu ail-rendro eiddo)
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth B: Ychwanegu to neu newid to
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth C: Newidiadau eraill i doeon
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth D: Codi portsh
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth F: Darparu neu newid wyneb caled
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth G: Newid, codi, rendro neu symud simneiau
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth A: Codi, newid, rendro, neu symud waliau, ffensys, neu reiliau terfyn

DRAFT



*Ffigur 2 Mae nodweddion pensaernïol traddodiadol yn bwysig i'r gymuned leol*

- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth C: Paentiad allanol adeiladau
- Atodlen 2 Rhan 11, Dosbarth C: Dymchwel waliau, ffensys neu reiliau terfyn

## 3. ADOLYGIAD FFIN

### 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd i adolygu eu hardaloedd cadwraeth a llunio a chyhoeddi polisïau a chynigion ar gyfer eu cadw a'u gwella. Rhan o'r broses adolygu yw ystyried a yw ffin yr ardal gadwraeth yn dal i gael ei hystyried yn briodol a gweld a ddylid ychwanegu neu hepgor unrhyw ardaloedd.

3.1.2 Bydd unrhyw eiddo pellach sy'n cael eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth o ganlyniad i adolygiad fod yn destun mân reolaethau ychwanegol. Nid yw'r rhain yn feichus a gall dynodiad gynnig manteision i berchnogion eiddo, megis mynediad posibl at gynlluniau grant.

### 3.2 Aberystwyth

3.2.1 Mae ffin Ardal Gadwraeth Aberystwyth wedi cael ei hymestyn deirgwaith ers ei dynodi, yn 1980, 1981 ac 1994.

3.2.2 O ganlyniad i'r ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid, awgrymwyd y dylid diwygio'r ffin i gynnwys y Pier. Mae'r Pier yn nodwedd allweddol o ardal Glan y Môr ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei olwg a'i gymeriad. Mae'n rhan o hanes Fictoraidd y dref a'r cynnig twristiaeth presennol yn ogystal â bod yn gofeb hanesyddol bwysig ynddo'i hun.

3.2.3 Fodd bynnag, mae'r Pier wedi'i ddiogelu trwy fod yn Adeilad Rhestredig Gradd II ac ni fyddai bod o fewn yr ardal gadwraeth yn rhoi diogelwch ychwanegol iddo rhag gwaith addasu neu ddatblygu amhriodol.

3.3.4 Nid yw'r rheilffordd halio ac adeileddau eraill ar Graig Glais wedi'u cynnwys yn yr ardal gadwraeth. Mae rhai o'r adeileddau hyn yn Adeiladau Rhestredig Gradd II ac ni fyddai bod o fewn yr ardal gadwraeth yn rhoi diogelwch ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, mae rhywfaint o botensial ar gyfer datblygiad amhriodol ar y bryn wrth i'w fusnes twristiaeth ehangu.

### 3.3 Argymhelliad

3.3.1 Argymhellir bod ffin Ardal Gadwraeth Aberystwyth yn cael ei hymestyn i gynnwys y Pier a'r rheilffordd halio ac adeileddau cysylltiedig ar Graig Glais.

3.3.2 Mae ardal gadwraeth yn 'ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella ei chymeriad.' Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod Lleol nodi beth yw'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig.

DRAFT

3.3.3 Ystyrir bod y Pier a'r rheilffordd halio a'r adeileddau cysylltiedig yn rhan annatod o ddatblygiad Fictoraidd y dref ac yn lleoliadau twristiaeth pwysig. Nid yw'r ffin bresennol yn cynnwys yn ddigonol yr holl nodweddion hanesyddol pwysig sy'n ymwneud â chyfnodau allweddol o ddatblygiad hanesyddol Aberystwyth, ac felly dylid diwygio'r ffin i gynnwys y nodweddion hyn.

3.3.4 Arweiniodd ymgynghoriad cymunedol at ddymuniad i ymestyn y ffin i gynnwys ardaloedd hanesyddol Trefechan. Cynhaliwyd asesiad o'r ardal hon. Mae cymeriad pensaernïol Trefechan yn gymysg yn bennaf ac o ansawdd is yn gyffredinol na'r brif dref. Ychydig o adeiladau sydd wedi cadw unrhyw nodweddion pensaernïol gwreiddiol. Mae rhai adeiladau o ddiddordeb unigol yn rhestredig ac maen nhw a'u lleoliadau yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth gryfach na'r hyn sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth. Awgrymir na ddylid cynnwys yr ardal hon gan y byddai cynnwys pensaernïaeth israddol a chymysg ei hansawdd yn gwanhau cymeriad cryf cyffredinol a diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth bresennol.

3.3.5 Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus hefyd awgrymu bod y ffin yn cael ei hymestyn ym mhob adolygiad i gynnwys adeiladau sydd o leiaf 80 mlwydd oed ar adeg pob adolygiad. Nid oedran yw'r unig ffactor wrth ddynodi ardal gadwraeth. Mae ardaloedd cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu olwg. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Byddai pob adolygiad yn ystyried adeiladau yr ystyrir eu bod yn cyfrannu at ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol cyffredinol yr ardal, a byddai hyn yn cynnwys yr holl adeiladau waeth beth fo'u hoedran. Bydd unrhyw adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ardal ar y pryd yn cael eu hadolygu o ran eu cyfraniad at gymeriad cyffredinol yr ardal, a gellir eu cynnwys o fewn estyniad pellach i'r ffin. Argymhellir y byddai'n annoeth cael polisi cyffredinol sy'n cynnwys pob adeilad dros oedran penodol yn awtomatig, waeth beth fo'u gwerth pensaernïol neu hanesyddol oherwydd gallai hyn wanhau diddordeb arbennig yr ardal.

DRAFT


## 4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS

### 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol geisio cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth ac mae angen iddynt graffu'n fanwl ar geisiadau cynllunio gyda'r amcanion hyn mewn golwg.

4.1.2 Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a mabwysiadu dull cyson.

*Ffigur 3 Estyniad arfaethedig i ffin yr Ardal Gadwraeth*






*Ffigur 4 Byddai canllawiau ar ddylunio da ar gyfer blaenau siopau ynghyd â mesurau cynllunio a gorfodi yn helpu i wella golwg yr ardal gadwraeth*

DRAFT

4.1.3 Gall gwybodaeth neu ddehongliad cyhoeddus helpu i sicrhau bod pawb yn deall pam bod ardal yn arbennig. Mae pobl sy'n deall pam bod rhywbeth yn arbennig yn fwy tebygol o ofalu amdano a theimlo eu bod am ofalu amdano. Gall hefyd helpu gyda'r cynnig twristiaeth a hybu buddsoddiad mewn ardal leol.

## 4.2 Aberystwyth

4.2.1 Datblygwyd a mabwysiadwyd dogfen ganllaw blaenau siopau ar gyfer Aberystwyth yn 2013.

4.2.2 Nid oes unrhyw arfarniad a chynllun rheoli ar gyfer Aberaeron ar hyn o bryd i lywio penderfyniadau rheoli datblygu ac asiantau neu berchnogion sydd am wneud cais am ganiatâd cynllunio.

4.2.3 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyngor manwl penodol ynghylch rheoli nodweddion pensaernïol o ddiddordeb arbennig a pha gamau a allai helpu i gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

### 4.3 Argymhellion

4.3.1 Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

4.3.2 Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Aberystwyth ar gyfer trigolion a busnesau sy'n egluro beth sy'n bwysig am yr ardal, rheolaethau a beth mae'n ei olygu i fyw a gweithio yn yr ardal.

4.3.3 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi a sefydliadau eraill, datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Gallai enghreifftiau gynnwys canllawiau ar ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu a'r canllawiau newydd ar inswleiddio waliau allanol.

4.3.4 Diweddaru'r canllawiau dylunio blaenau siopau presennol ar gyfer Aberystwyth er mwyn gallu eu defnyddio ym mhob ardal gadwraeth yng Ngheredigion. Gweithio gyda sefydliadau busnes lleol i ddosbarthu a darparu hyfforddiant.

4.3.5 Datblygu canllaw dylunio lliwiau a fyddai'n nodi canllawiau ac egwyddorion cyffredinol ar gyfer lliwiau a mathau priodol o baent i'w defnyddio yn yr ardal gadwraeth, yn enwedig ar gyfer paentio adeiladau, blaenau siopau ac arwyddion.




***Ffigur 5 Byddai datblygu canllaw dylunio lliwiau yn rhoi rhyddid mynegiant ond yn atal cynlluniau paent mwy llachar***

4.3.6 Darparu dehongliad ychwanegol o hanes canoloesol Aberystwyth mewn ffordd nad yw'n ychwanegu at annibendod strydoedd. Gallai hyn fod yn ychwanegiad at arwyddion presennol,

trwy gelfyddyd stryd neu farddoniaeth, ar-lein, codau QR, (hunan) teithiau cerdded tywys, neu ddulliau eraill.

## 5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Gall y rhestr gynnwys pob math o asedau hanesyddol — adeiladau, parciau, gerddi, henebion a safleoedd archeolegol — ar yr amod nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n ffurfiol.

5.1.2 Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.

5.1.3 Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae arfarniad ardal gadwraeth yn un ffordd o nodi'r asedau hyn.

5.1.4 Rhaid ychwanegu rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ato. Wedi hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddatblygu polisïau cynllun lleol perthnasol y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau.

5.1.5 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf

### 5.2 Aberystwyth

5.2.1 Mae gan Aberystwyth lawer o adeiladau hanesyddol sydd o arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol lleol arbennig ac sydd heb eu dynodi yn eu rhinwedd eu hunain.

5.2.2 Byddai cydnabod yr adeiladau hyn trwy eu cynnwys ar 'restr leol' yn:

- Cydnabod bod yr adeiladau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl leol
- Rhoi cyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o'u nodi a gofalu amdanynt yn briodol
- Caniatáu i'r Cyngor wneud cais am gyllid neu gynlluniau grant a fyddai'n darparu cyfleoedd adfywio ar gyfer adeiladau rhestredig lleol
- Galluogi ystyried newidiadau yn ofalus trwy'r broses gynllunio i sicrhau eu bod yn gadarnhaol ac nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar yr asedau, eu lleoliad na'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt.

DRAFT

## 5.3 Argymhellion

5.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys adeiladau ar restr o'r fath a datblygu'r rhestr.

5.3.2 Dylai cymunedau lleol fod yn rhan o'r broses ddewis.

5.3.3 Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.

5.3.4 Mae'r canlynol yn nodi rhai canllawiau a awgrymir ar gyfer creu rhestr o adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig (nad ydynt eisoes wedi'u dynodi) y gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys:

- Unrhyw adeilad sy'n cadw'r mwyafrif o'i nodweddion pensaernïol hanesyddol ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y strydlun
- Unrhyw adeilad sydd â gwerth cymunedol neu bresenoldeb tirnod arbennig
- Unrhyw adeilad sy'n debygol o gadw tystiolaeth archeolegol o gyfnod hanesyddol blaenorol (ystyried y cyfnod cyn-Fictoraidd)
- Unrhyw adeiledd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y parth cyhoeddus ac sydd â gwerth hanesyddol
- Unrhyw adeilad sy'n arddangos ei gyfnod o ddatblygu yn gryf trwy ei ffurf bensaernïol a'i addurniad (ystyried y cyfnod ôl-Fictoraidd)

DRAFFT



*Ffigur 6 Gallai adeileddau nad ydynt yn rhestredig o ddiddordeb hanesyddol megis yr wrinal Fictoraidd hwn gael ei ystyried i'w gynnwys ar 'restr leol'*

## 6. YSTYRIED GORFODI

### 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth.

6.1.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau'n deall lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r ACLl am gyngor.

6.1.3 Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer ACLlau a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau.

6.1.4 Trafod a negodi gyda'r perchennog/meddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

### 6.2 Aberystwyth

6.2.1 Nid yw unrhyw wybodaeth adolygiad sylfaen gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Aberystwyth.

6.2.2 Cynhaliwyd arolwg ffotograffig rhannol ac adolygiad yn 2015.

6.2.3 Mae'n bosibl na fydd perchnogion a meddianwyr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.

### 6.3. Argymhellion

6.3.1 Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.

6.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

6.3.3 Dylai'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.

6.3.4 Dylid cynnal arolwg ffotograffig dilynol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r arfarniad ardal gadwraeth, bob pum mlynedd yn ddelfrydol.

6.3.5 Ystyried trafod â pherchnogion / cymryd camau gorfodi (lle mae tystiolaeth yn bodoli) os yw nodweddion traddodiadol wedi cael eu symudi ymaith a newidiadau wedi cael eu gwneud i adeiladau rhestredig heb ei awdurdodi. Byddai angen prosiect ychwanegol i nodi lle mae gwaith anawdurdodedig wedi digwydd gan ddefnyddio cofnodion cynllunio'r Cyngor, arolwg

DRAFT

2015 ac yn ddelfrydol byddai'n cynnwys y gymuned leol. Mae meysydd ar gyfer ystyried camau gorfodi yn cynnwys:

- Arwyddion a ffasgia siopau
- Annibendod ar adeiladau rhestredig – dysglau lloeren, gwifrau trydan, larymau, gosodiadau wal segur ac ati
- Newidiadau i doeau, yn enwedig ar adeiladau rhestredig, megis ffenestri dormer, goleuadau to, colli simneiau, defnyddio gorchuddion to amhriodol ac ati
- Gosod ffenestri a drysau newydd amhriodol

## 7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO

### 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Gall ardaloedd hanesyddol fod yn ffocws pwysig ar gyfer adfywio cymunedol. Mae eu cymeriad unigryw yn ased a all greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru. Gall adfywio helpu i greu ymdeimlad o le a hynodrwydd lleol, a chefnogi sgiliau gwerthfawr ac annog buddsoddiad.

7.1.2 Mae llawer o ardaloedd hanesyddol wedi dioddef o ddirywiad mewn gweithgarwch economaidd, sy'n arwain at adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a buddsoddiad isel. Yn yr



*Ffigur 7 Mae'r cysgodfan Rhestredig Gradd II 1924 Bath Rock wedi bod yn destun nifer o brosiectau adfywio yn dilyn difrod gan stormydd garw*

DRAFT

efallai y bydd angen cymryd camau wedi'u targedu i ddatgloi potensial a gwireddu buddion ehangach. Gall gweithgareddau adfywio roi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol, gan roi bywyd newydd i adeiladau ac ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'u tanbrisio.

## 7.2 Aberystwyth

7.2.1 Yn hanesyddol mae nifer o gynlluniau gwella wedi cael eu cynnal yn y dref: Cynllun Grant Gwella Trefi 2008-2012; Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth Croeso Cymru, a chyllid Ardal Adfywio ar gyfer Gwella'r Promenâd 1996-2001; adnewyddu Neuadd y Farchnad, Aberystwyth 2013; a chynllun Ardal Adfywio Strategol 2010-2015.

7.2.2 Mae gan Aberystwyth y fantais o fod â hanes canoloesol diddorol ac adfeilion castell sylweddol y gellir ymweld â hwy am ddim.

7.2.3 Mae gan Aberystwyth ei chyfran deg o siopau ac eiddo masnachol gwag o hyd yng nghanol y dref. Ceir fflatiau ac eiddo gwag uwchben siopau hefyd sy'n arwain at ddiffyg cynnal a chadw ac yn lleihau economi'r nos a bywiogrwydd y dref.

DRAFT



*Ffigur 8 Y gobaith yw y bydd cadwraeth Gwesty'r Castell yn rhoi bywyd newydd i'r adeilad cain hwn*

7.2.4 Ar hyn o bryd mae nifer fawr o adeiladau wedi'u gorchuddio â sgaffaldiau yn y dref. Er na ymchwiliwyd i fanylion y cynlluniau hyn disgwylir y bydd hyn yn arwain at dreflun gwell ac adeiladau sydd wedi'u cadw a'u gwella'n briodol.

## 7.3 Argymhellion

7.3.1 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gan berchnogion a defnyddwyr adeiladau yr offer angenrheidiol i wneud eu gwaith atgyweirio ac adnewyddu priodol eu hunain. Gall hyn gynnwys canllawiau, hyfforddiant a mentora.

7.3.2 Ceisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu canolfan hyfforddi cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Prosiect Ystrad Fflur, Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, neu'r tebyg, i hyfforddi pobl leol mewn technegau cadwraeth, creu swyddi sy'n darparu gwasanaethau cadwraeth lleol i berchnogion a meddianwyr yn y dref a'r ardaloedd cyfagos. Gallai'r ganolfan ddarparu cyrsiau hyfforddi rhad neu ddim neu gost isel mewn cynnal a chadw cyffredinol i berchnogion a meddianwyr a chynorthwyo i ddod o hyd i grefftwyr a deunyddiau priodol. Gallai hyn ddarparu adnodd gwerthfawr a chynaliadwy a fyddai'n cefnogi adfywio canol trefi ac ardaloedd cadwraeth Ceredigion, yn ogystal â darparu rhywfaint o gyflogaeth, uwchsgilio perchnogion a meddianwyr, a helpu i gadw a gwella pensaernïaeth hanesyddol y sir. Gellid defnyddio model tebyg i ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau Adfer Ban a Chwm Sir Gaerfyrddin.

7.3.3 Ystyried ceisio cyllid o ffynonellau priodol megis Cronfa Treftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, adnewyddu tai, cyllid Cronfa Datblygu Strategol ac eraill fel y bo'n briodol. Mae meysydd â blaenoriaeth ar gyfer cyllid yn cynnwys:

- Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau hanesyddol a nodweddion pensaernïol presennol, yn enwedig ffenestri, drysau, fframiau drysau, portshys, a blaenau siopau
- Hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig atgyweirio a chynnal a chadw gyda deunyddiau priodol
- Disodli nodweddion pensaernïol a gollwyd ar adeiladau hanesyddol ynghyd â rhaglen orfodi
- Cynlluniau 'Byw Uwchben Siop'
- Annog ailddefnyddio siopau gwag – ystyried lleihau ardrethi busnes ar gyfer adeiladau rhestredig gwag

DRAFT

- Atgyweirio wynebau stryd/llwybr traddodiadol a gosod palmant traddodiadol o ansawdd da yn lle arwynebau tarmac amhriodol (sylwer bod rhai deunyddiau ar y Promenâd yn amhriodol).
- Ymchwil ac ymchwilio, e.e. datblygu fframwaith ymchwil archeolegol ar gyfer Aberystwyth (a/neu Geredigion), cynnal ymchwiliad archeolegol i'r dref ganoloesol, ymchwil pellach at ddibenion gorfodi




***Ffigur 9 Gall cynlluniau Byw Uwchben Siop helpu i achub adeiladau hanesyddol a chreu bywiogrwydd a buddion economaidd yng nghanol y dref***

7.3.4 Ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu'r defnydd o siopau gwib mewn adeiladau gwag yn y brif ardal siopa, yn enwedig yn ystod y tymor gwyliau.

7.3.5 Cynhyrchu canllawiau dylunio datblygu manwl ar gyfer safleoedd o fewn yr ardal gadwraeth a nodir ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn y CDLl (M0301, M0302, M0303, M0304, M0305) ac ar gyfer safleoedd sy'n cael eu hailddatblygu o fewn yr ardal gadwraeth, yn enwedig ailddatblygu adeiladau o ansawdd gwael o'r 20fed ganrif.

7.3.6 Ystyried sefydlu Grŵp Twristiaeth Treftadaeth i gynhyrchu Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth Ddiwylliannol gynaliadwy ar gyfer Aberystwyth. Gallai ffynonellau cyllid a phartneriaid posibl gynnwys: Croeso Cymru; Llywodraeth Cymru; y Brifysgol, sefydliadau diwylliannol

cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; canolfannau; darparwyr llety, ac ati. Mae enghreifftiau yn cynnwys: **Dorchester** (https://www.dorchester-tc.gov.uk/docs/downloads/2021-Heritage-Strategy-Summary.pdf), **Gogledd Iwerddon** (https://www.tourismni.com/globalassets/business-development/support-by-sector/other-sectors/culture--heritage/tourism-ni-heritage-framework-a-prospectus-for-change.pdf) a **Cape Town** (https://resource.capetown.gov.za/documentcentre/Documents/City%20strategies,%20plans%20and%20frameworks/Heritage%20Cultural%20Tourism%20Framework%20Final.pdf)

7.3.7 Gellid gwella'r profiad ymwelwyr yn y castell a dealltwriaeth o hanes canoloesol y dref. Mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y castell yn rhad ac am ddim i ymweld ag ef, yn hygyrch, gyda golygfeydd gwych a'u bod yn gallu mynd â chŵn i mewn, ond byddai dehongliad ychwanegol yn helpu i wella profiad ymwelwyr. Dylid casglu sbwriel yn rheolaidd hefyd. Dylid cymryd gofal, fodd bynnag, i beidio â chreu annibendod ar y safle neu effeithio ar arwyddocâd gweledol yr adfeilion. Gallai'r opsiynau gynnwys digwyddiadau y gellid codi ffi amdanynt megis perfformiadau drama byw, ail-greadau, Ffair Ganoloesol neu (hunan) deithiau tywys gyda thywysyddion personol, codau QR, gwefan benodol neu daflenni. Byddai tywysydd taith 'personol' / staff safle yn ychwanegiad gwerthfawr yn ystod y tymor gwyliau, a gallai gael ei staffio gan wirfoddolwyr. Gellid ystyried ffurfio grŵp ffrindiau Castell Aberystwyth. Byddai adolygu sylwadau ymwelwyr annibynnol ar Tripadvisor yn werthfawr.

## 8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI

### 8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Un o amcanion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys eiddo masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus, felly gall hysbysebu awyr agored fod yn hollbwysig i fywiogrwydd masnachol. Mae'r mathau o hysbysebion sydd angen caniatâd cynllunio yn cynnwys hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes a hysbysebion ar hysbysfyrddau o amgylch safleoedd datblygu.

8.1.2 Gall awdurdodau hefyd ddewis mabwysiadu polisïau rheoli hysbysebion fel rhan o'u cynigion ar gyfer cadw neu wella ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, trwy ddynodi ardaloedd rheoli hysbysebion arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolaethau o'r fath mewn modd hyblyg mewn ardaloedd cadwraeth i warchod y nodweddion hynny sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol a arweiniodd at y dynodiad.

DRAFFT




*Ffigur 10 Gallai canllawiau blaenau siopau a rheolaeth dros rai hysbysebion helpu i wella blaenau siopau yng nghraidd yr ardal gadwraeth*

DRAFT

## 8.2 Aberystwyth

8.2.1 Mae gan yr ardal gadwraeth graidd masnachol bywiog. Mae'r ardal hon yn cynnwys nifer o flaenau siopau hanesyddol, ffryntiadau tafarndai, a chyn anheddau sydd wedi goroesi ac sydd wedi cael eu haddasu'n sensitif at ddefnydd masnachol/manwerthu. Dros amser mae rhai o'r blaenau siopau hanesyddol wedi cael eu newid yn ansensitif oherwydd hysbysebion modern ac anghydnaws yn bennaf (ffasgia ac arwyddion sy'n estyn allan / hongian), cynlluniau lliw corfforaethol caled a gormod o arwyddion. Mewn achosion eraill mae arwyddion modern yn cuddio blaen y siop a manylion yr adeilad.

## 8.3 Argymhellion

8.3.1 Dynodi ardal o reolaeth hysbysebu arbennig o fewn canolfan fasnachol / fanwerthu Aberystwyth

8.3.2 Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i ymdrin ag arfer da ym mhob ardal gadwraeth ac ystyried ail-ryddhau'r canllawiau gyda hyrwyddo ychwanegol trwy ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

8.3.3 Ceisio cyllid ar gyfer rhaglen grantiau blaenau siopau ac arwyddion.

8.3.4 Ystyried gorfodaeth ar gyfer arwyddion anawdurdodedig a'i chyfuno gyda rhaglen grantiau.

# 9. ADEILADAU MEWN PERYGL

## 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Cadw'r defnydd o adeiladau a'u cynnal yw conglfaen rheolaeth lwyddiannus o ardal gadwraeth. Mae adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio yn niweidio bywiogrwydd ac atyniad ardaloedd cadwraeth.

## 9.2 Aberystwyth

9.2.1 Mae nifer o Adeiladau Rhestredig mewn Perygl o fewn yr ardal gadwraeth. Mae'r adeiladau rhestredig masnachol gwag canlynol wedi'u nodi:

- Belle Vue
- Swyddfa'r Sir / Neuadd y Sir
- DIVA
- Claire's Accessories – 37 y Stryd Fawr
- Furniture Cave Siop yn Stryd y Dollborth
- Yr Hen Swyddfa Bost
- Gas Showroom
- Neuadd y Buarth
- Yr Hen Ysgol (2 uned)
- Siop y Prom
- Costa
- Hen Gwt y Sgowtiaid ym Mhlascrug

## 9.3 Argymhellion

9.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Byddai hyn yn amlinellu dull strategol o nodi a rheoli'r adeiladau hyn (gweler: https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/gynnwys).

DRAFFT

9.3.2 Mae'n ofynnol i berchnogion adeiladau rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill mewn achosion eithafol. Os bydd trafodaethau'n aflwyddiannus, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio ei bwerau statudol.

9.3.3 Dylai'r Cyngor, er mwyn cwmpasu'r holl ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig ac eiddo heb eu dynodi, ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau a chyrsiau hyfforddi – hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig atgyweirio a chynnal a chadw gyda deunyddiau priodol. Gweler Cynllun Rheoli Cadwraeth Aberystwyth am awgrymiadau ar gyfer cynllun llawn. Byddai dosbarthu cyhoeddiad megis 'Stitch in Time' (IHBC a SPAB) i'r holl eiddo yn ardaloedd cadwraeth Ceredigion yn ddechrau da i'r broses hon.

## 10. GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

### 10.1 Cyflwyniad

10.1.1 Yn ogystal â'r offer gorfodi amrywiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cenedlaethol, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cynghorau Tref a fforymau busnes.

10.1.2 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn aml yn ymwneud â seilwaith ffisegol y dref, gan gynnwys priffyrdd, gwaith gan ymgymerwyr statudol, iechyd yr amgylchedd, tai ac eraill.

10.1.3 Gall ymgysylltu â'r gymuned a mentora hefyd greu newid cadarnhaol o fewn ardaloedd dynodedig.

DRAFT

### 10.2 Aberystwyth



*Ffigur 11 Gall rhai rhannau o'r dref ddioddef o dagfeydd a thraffig trwm*

10.2.1 Mae'r ardal gadwraeth yn amgylchedd prysur gyda thraffig trwm, mae rhai ffyrdd hefyd yn cael eu defnyddio fel 'llwybrau cyflym' i fyrhau amseroedd teithio, ac oherwydd y system un ffordd gall tagfeydd mawr ddigwydd mewn rhai mannau. Mae hyn yn cael dylanwad hollbwysig ar yr amgylchedd ffisegol a chymeriad a golwg yr ardal.

10.2.2 Mae'r llu o arwyddion traffig safonol, pyst, marciau ffordd, mannau talu i barcio, a rheiliau diogelwch ac ati mewn rhannau o'r dref yn cyflwyno nodweddion estron ac annibendod gweledol sy'n amharu ar gymeriad neu olwg yr ardal ddynodedig.

10.2.3 Ar draws yr ardal gadwraeth mae dodrefn stryd gan gynnwys seddi, biniau sbwriel, bolardiau, rheiliau ochr y ffordd, goleuadau stryd ac ati yn gymharol gydlynol, fodd bynnag, mae rhai eitemau wedi dyddio ac eraill wedi'u lleoli'n amhriodol, tra bod eraill wedi cael eu disodli gan ddyluniadau newydd amhriodol.

10.2.4 Mae galw cynyddol am lety rhent yng nghanol y dref. Mae hyn wedi arwain at droi llawer o anheddau meddiannaeth sengl yn dai amlfeddiannaeth. Bydd pwysau parhaus i newid defnydd adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth ac efallai y bydd rhai o'r adeiladau yn addas i'w haddasu, eraill yn llai addas, ac mae'n hanfodol bod twf a dosbarthiad tai amlfeddiannaeth yn cael eu hystyried yn ofalus.

10.2.5 Gall newidiadau defnydd hefyd gael effaith negyddol ar yr amgylchedd ffisegol cyfagos ac mae peth niwed eisoes wedi digwydd gydag arwyddion i'w gosod tymor hir, biniau sbwriel ac ailgylchu wedi'u gadael allan yn y parth cyhoeddus, ac ati sy'n cael effaith negyddol ar olwg a chymeriad y strydlun.

10.2.6 O fewn yr ardal gadwraeth mae nifer o ddatblygiadau mewnlenwi modern wedi digwydd dros amser ac mae rhai ohonynt yn cael effaith negyddol ar y cymeriad hanesyddol ac nid ydynt yn cydweddu ag ansawdd cyffredinol a nodweddion pensaernïol ac arddull y dref.

10.2.7 Yn yr ardal gadwraeth mae rhannau o'r strydlun hanesyddol wedi goroesi sy'n gwella lleoliad yr adeiladau cyfagos ac ansawdd cyffredinol y parth cyhoeddus, ond mewn mannau maent mewn cyflwr diraddiol o ganlyniad i oedran, traul cyffredinol a diffyg cynnal a chadw rheolaidd ac atgyweiriadau ansensitif. Byddai arwynebau newydd megis ar y Promenâd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal hon, ond mae rhai o'r deunyddiau newydd eisoes yn treulio ac mae gwaith atgyweirio tameidiog gyda deunyddiau amhriodol wedi digwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r wynebau wedi'u safoni h.y. palmentydd concrit a ffyrdd tarmac a mannau parcio arwyneb solet. Mewn mannau mae'r rhain mewn cyflwr diraddiol iawn gyda deunyddiau'n treulio, cracio ac yn anwastad ac mae atgyweiriadau amhriodol yn creu golwg clytwaith.

DRAFT

### 10.3 Argymhellion

10.3.1 Rhaid i dîm rheoli datblygu'r Cyngor annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth, yn enwedig trwy ddefnyddio'r broses ymholi cyn ymgeisio a sicrhau bod y CCA presennol yn addas i'r diben. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu ac ail-ryddhau'r CCA a'u hyrwyddo yn enwedig o fewn ardaloedd dynodedig.



***Ffigurau 12 a 13 Mae rhannau o'r Promenâd sydd wedi cael wyneb newydd yn gymharol ddiweddar yn dechrau treulio, ac mae atgyweiriadau amhriodol wedi'u gwneud mewn mannau***

DRAFT

10.3.2 Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig, a bod adnoddau ar gael ar gyfer cymryd camau gorfodi os a phan fo angen.

10.3.3 Os oes angen, cynnig hyfforddiant i Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. Mae rhai cyhoeddiadau a chanllawiau ardderchog ar gael fel '*Streets for All*' Historic England (https://historicengland.org.uk/images-books/publications/streets-for-all/heag149-sfa-national/).

10.3.4 Ar y cyd â'r Adran Briffyrdd, llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Bydd yn rhoi sylw i wynebau, rheiliau diogelwch, dodrefn stryd, goleuadau a nodweddion ffyrdd a diogelwch priffyrdd.

10.3.5 Gyda'r gymuned leol, sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella'r ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr megis codi sbwriel, gwella meysydd parcio, nodi arwyddion i'w symud, ac ati (gweler: https://www.keepbritaintidy.org/sites/default/files/resources/How%20To%20Organise%20A%20Litter-Picking%20Event.pdf ). Gallai hefyd wneud sylwadau ar gynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth a dwyn

unrhyw faterion yn y dyfodol o fewn yr ardal gadwraeth at sylw'r Cyngor. Dylai'r Cyngor ddarparu mentora a hyfforddiant.

10.3.6 Dylai addasiadau i dai amlfeddiannaeth yn y dyfodol geisio cadw a phwysleisio nodweddion sy'n ymwneud â swyddogaeth wreiddiol yr adeilad, ei gymeriad arbennig ei olwg allanol a'i ddiddordeb, fel arall bydd yr adeilad yn colli ei hunaniaeth. Dylid cynnwys digon o gapasiti / lle ar gyfer biniau, storio ac ati yn y dyluniadau.

10.3.7 Ailddatblygu datblygiadau mewnlenwi modern – Defnyddio offer rheoli datblygu i sicrhau dylunio newydd llawn dychymyg o ansawdd da. Wrth ystyried cynigion ar gyfer ailddatblygu safleoedd o'r fath, dylai'r prif bryderon gynnwys yr egwyddor o raddfa gyffredinol unrhyw adeilad newydd, y cysyniad pensaernïol a'r manylion a'i berthynas â'i gyd-destun. Dylai adeilad newydd da fod mewn gwrthgyferbyniad cadarnhaol â'i gymdogion, ac ategu ei gilydd, gan ystyried patrwm, rhythm, manylion a deunyddiau'r ffurf adeiledig gerllaw.

10.3.8 Ystyried creu strategaeth barcio ar gyfer y dref, gan ystyried effaith parcio ar y stryd a nifer y ceir yng nghanol y dref.

10.3.9 Cydgysylltu ag asiantau gosod a gwerthu tai i gael gwared ar arwyddion i'w osod ac ar werth ar ôl cyfnod penodol a sicrhau bod yr arwyddion o ddyluniad priodol, wedi'u lleoli'n briodol ac mewn cyflwr da bob amser.

## 11. COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED

### 11.1 Cyflwyniad

11.1.1 Mae coed yn elfen bwysig o gymeriad ac amwynder llawer o ardaloedd cadwraeth ac — ynghyd â mannau agored gwyrdd, gan gynnwys gerddi preifat — mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ecosystem. I gyd-fynd â'r rheolaethau dros goed mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n syniad da i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod a rheoli coed ac elfennau eraill o'r amgylchedd naturiol, megis gwrychoedd ac ymylon ffyrdd.

11.1.2 Gallai strategaeth ar gyfer coed gynnwys asesiad o'u gwerth o ran amwynder a bioamrywiaeth, a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystem cyn bod pwysau i'w gwaredu. Gellid integreiddio gwarchod a rheoli coed a mannau agored mewn strategaeth seilwaith gwyrdd.

### 11.2 Aberystwyth

11.2.1 Mae'r coed, mannau agored a thirwedd sy'n cyfrannu at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth wedi eu nodi o fewn yr arfarniad.

DRAFT

11.2.2 Yn gyffredinol mae'r mannau agored i'w gweld yn cael eu cynnal a'u cadw'n weddol dda.



***Ffigur 14 Yn gyffredinol mae mannau agored o fewn yr ardal gadwraeth yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ond mae bob amser lle i wella***

11.2.3 Mae angen cynnal a chadw a rheoli rhai coed stryd yn briodol ac mae rhai coed wedi cael eu colli.

11.2.4 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu Strategaeth ar gyfer Gwyrddu Trefi ac mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi cael ei gynnal gan ymgynghorwyr.

## 11.3 Argymhellion

11.3.1 Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.

11.3.2 Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd.

11.3.3 Ystyried comisiynu adroddiad coed ar wahân a/neu gynnwys y gymuned leol wrth nodi a mapio coed a grwpiau coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

11.3.4 Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl.

DRAFT

11.3.5 Sicrhau bod coed stryd presennol yn cael eu cadw, eu disodli yn ôl yr angen a'u rheoli'n briodol.

## 12. MONITRO AC ADOLYGU

### 12.1 Cyflwyniad

12.1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu ardaloedd cadwraeth presennol 'o bryd i'w gilydd' – yn gyffredinol ystyrir mai bob pump i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau.

12.1.2 Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai'r adolygiad hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.

12.1.3 Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.

12.1.4 Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed, gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

### 12.2 Aberystwyth

12.2.1 Fel rhan o'i gyfres o astudiaethau nodweddion trefol, cynhyrchodd Cadw asesiad trylwyr iawn o gymeriad trefol Aberystwyth yn 2013. Mae'r astudiaeth hon yn mynd y tu hwnt i ffin yr ardal gadwraeth a thra ei bod wedi dyddio ychydig mae'n dal i fod yn ddogfen hynod berthnasol a dylid cyfeirio ati yn ogystal â'r arfarniad hwn.

12.2.2 Mae Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli drafft ar gyfer Aberystwyth wedi bod wrthi'n cael ei baratoi ers peth amser, ond yn anffodus nid yw wedi'i orffen na'i fabwysiadu.

12.2.3 Mae'r Cyngor newydd benodi Swyddog Cynllunio newydd gyda chyfrifoldeb am gadwraeth.

### 12.3 Argymhellion

12.3.1 Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

12.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.

12.3.3 Dylai'r Cyngor barhau i ddefnyddio dogfen nodweddion trefol Cadw i gefnogi gwneud penderfyniadau.

DRAFFT

12.3.4 Dylai'r Cyngor gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.

12.3.5 Dylai'r Cyngor sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.

12.3.6 Dylai'r Cyngor barhau i hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng cynghorau lleol, adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.




***Ffigur 15 Ardal yr Hen Dref, Aberystwyth***

## ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION<br><br>(AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI) | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|---|
| Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau. | CSC – Treftadaeth a Pholisi | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn** |
| Gweithredu'r estyniad ffin arfaethedig. | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br><br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn** |
| Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4(1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Aberystwyth | CSC – Treftadaeth a Pholisi<br><br>Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn** |
| Dynodi ardal o reolaeth hysbysebu arbennig o fewn canolfan fasnachol/fanwerthu Aberystwyth. | CSC – Treftadaeth a Pholisi | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn** |
| Parhau i ddefnyddio dogfen nodweddion trefol Cadw i gefnogi gwneud penderfyniadau. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Rheoli Datblygu | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn**<br><br>**Parhaus** |
| Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn**<br><br>**Parhaus** |
| Ymrwymiad i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion (Siarter Gorfodi neu'r tebyg). Trafod â'r perchnogion ynglŷn â thor rheolau. Cyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig. Gorfodaeth ar gyfer arwyddion a ffasgia siopau anawdur- | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn**<br><br>**Parhaus** |
| Sicrhau bod cynlluniau adfywio a chynlluniau eraill yn defnyddio egwyddorion dylunio ar sail treftadaeth i sicrhau bod arwyddocâd yr ardaloedd hyn yn llywio datblygiad unrhyw gynigion. Llunio briffiau dylunio ar gyfer safleoedd datblygu a mewnlenwi posibl o fewn ac yn lleoliad yr ardal gadwraeth. Annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth. Llunio canllawiau ar gyfer tai amlfeddiannaeth i sicrhau bod nodweddion yr ardal gadwraeth yn cael eu hystyried a bod digon o finnau storio ac ati. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Rheoli Datblygu<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned / y gymuned leol | **Uchel**<br><br>**0-1 flwyddyn**<br>**Parhaus** |
| Cydgysylltu ag asiantau gosod a gwerthu tai i gael gwared ar arwyddion i'w osod ac ar werth ar ôl cyfnod penodol, a sicrhau bod yr arwyddion o ddyluniad priodol, wedi'u lleoli'n briodol ac mewn cyflwr da bob amser. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol | **Uchel**<br><br>**0-1 mlynedd Parhaus** |

DRAFT

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION<br><br>(AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI) | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|---|
| Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig. Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. | CSC – Ecoleg, Polisi a Rheoli Datblygu<br><br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |
| Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl a rheoli datblygu. Nodi coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu<br><br>Y gymuned leol | **Uchel – parhaus** |
| Sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt. | CSC | **Uchel – parhaus** |
| Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni. | CSC | **Uchel – parhaus** |
| Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Aberystwyth. Sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau, yn enwedig mewn perthynas â Chyfarwyddyd Erthygl 4. | CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Pholisi<br><br>Y gymuned leol | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i gwmpasu arfer da ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion ym mhob ardal gadwraeth. Ceisio cyllid ar gyfer rhaglen grantiau blaenau siopau ac arwyddion. Ystyried mesurau gorfodi yn ôl yr angen. | CSC – Polisi a Threftadaeth<br><br>Awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddog Cadwraeth De a Chanolbarth Cymru | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan. Datblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol. | CSC – Treftadaeth a<br><br>Pholisi<br><br>Y gymuned leol | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Ceisio cyllid ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau cynnal a chadw, atgyweirio, adfywio a hyfforddi (gweler 7.3.3 ac 8.3.3) o bosibl ar y cyd â'r isod. | CSC – Treftadaeth a Pholisi, Adfywio | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Ceisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu canolfan hyfforddi cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. | CSC – Adfywio, Treftadaeth<br><br>Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Prosiect Ystrad Fflur, Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, ac ati | **Canolig 2-3 blynedd a pharhaus** |
| Ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu ar y defnydd o siopau gwib mewn adeiladau gwag o fewn yr ardal gadwraeth. | CSC – Treftadaeth a Pholisi, Adfywio<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol (perchnogion adeiladau) | **Canolig 2-3 blynedd a pharhaus** |

DRAFT

| **GWEITHREDU / ARGYMHELLION**<br><br>(AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI) | **CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID** | **BLAENORIAETH** |
|---|---|---|
| Ystyried sefydlu Grŵp Twristiaeth Treftadaeth i gynhyrchu Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth Ddiwylliannol gynaliadwy ar gyfer Aberystwyth. | CSC – Polisi, Adfywio | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Tai<br><br>Y gymuned leol | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Priffyrdd | **Canolig 2-3 blynedd** |
| Sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach i wella'r ardal gadwraeth a hefyd rhoi sylwadau ar gynigion datblygu. Nodi safleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol. | CSC – Treftadaeth, Polisi<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol | **Canolig 2-3 blynedd a pharhaus** |
| Datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth e.e. ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu, insiwleiddio muriau allanol, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ac ati. | CSC – Treftadaeth<br><br>Awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddog Cadwraeth De a Chanolbarth Cymru<br><br>Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, SCAH, Canolfan Tywi | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Datblygu canllaw dylunio lliwiau a fyddai'n nodi canllawiau ac egwyddorion cyffredinol ar gyfer lliwiau a mathau priodol o baent i'w defnyddio o fewn yr ardal gadwraeth. | CSC – Polisi a Threftadaeth<br><br>Awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De a Chanolbarth Cymru | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Ystyried sefydlu grŵp ffrindiau Castell Aberystwyth a gwella'r dehongliad yn y castell. Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i ddarparu dehongliad ychwanegol o hanes canoloesol Aberystwyth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Priffyrdd – llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio a Phriffyrdd<br><br>Llywodraeth Cymru? | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Ystyried creu strategaeth barcio ar gyfer y dref i leihau effaith traffig a pharcio ar gymeriad yr ardal gadwraeth. | CSC – Priffyrdd, Adfywio, Polisi, Treftadaeth<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned / y gymun- | **Isel 3-5 mlynedd** |
| Ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf. Arolwg ffotograffig dilynol fel rhan o'r adolygiad nesaf. Cynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol. | CSC – Polisi a Threftadaeth Ymgynghorwyr | **Isel 5-10 mlynedd** |

DRAFT

## ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH

### Deddfwriaeth a Chanllawiau

Cadw (2011) 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy': *https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles%20for%20the%20sustainable%20managment%20fo%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf*

Cadw (2017) 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru': *https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%20EN.pdf*

Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': *https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf*

Cadw (2017) 'Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru': *https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20EN.pdf*

Cadw (2017) 'Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru': *https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Rheoli%20Hanesyddol%20Cymeriad%20in%20Cymru%20%20CY.pdf*

Cadw (2017) 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru': *https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf*

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (CDLl1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) CCA Cyngor Sir Ceredigion: *Deddf yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio Hanesyddol (Cymru)* 2016: *https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents*

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990): *https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents*

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: *https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted*

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24*:* Yr Amgylchedd Hanesyddol: *https://www.gov.wales/technical-advice-note-tan-24-historic-environment*

Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (Argraffiad 12. 2024): *https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-02/planning-policy-wales-edition-12_1.pdf*

DRAFT

## Llyfryddiaeth


Bartholomew, J. (1887) Gazetteer of the British Isles

Cadw (2013) Aberystwyth: Understanding Urban Character

Carter, H. (1958). 'Aberystwyth: The Modern Development of a Medieval Castle Town in Wales' yn Transactions and Papers (Institute of British Geographers)

(25) Carter, H (1965) Towns of Wales

Cyngor Sir Ceredigion (u/d) Bibliography of Cardiganshire 1600–1968 Aberystwyth

Hague, DB. (1955) 'The Aberystwyth Town Walls' yn Ceredigion – Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1955 Cyfrol II Rhif 4

Jenkins, J. G. (2005) Ceredigion: Interpreting an Ancient County.

Lewis, S. (1833) Topographical Dictionary of Wales

Lewis, W. J. (1959) 'Some Aspects of the History of Aberystwyth-I' yn Ceredigion – Cyfnodolyn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1959 Cyfrol III Rhif 4

Lewis, W. J. (1960) 'Some Aspects of the History of Aberystwyth-II' in Ceredigion – Cyfnodolyn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, 1960 Cyfrol IV Rhif I

Lewis, W. J. (1970) An Illustrated History of Cardiganshire

Lewis, W J (1980) Born on a perilous rock: Aberystwyth past and present

LUC (2024) Ceredigion: Strategaeth ar gyfer Gwyrddu 6 Thref. https://lucmaps.co.uk/CeredigionGBIDigitalReport/

Sanders, IJ. (1954) 'The Boroughs of Aberystwyth and Cardigan in the early fourteenth century' ym Mwletin y Bwrdd Astudiaethau Celtaidd, Cyfrol XV

Singer, R and Fielding, S (2017) Aberystwyth Cofnod safle Coflein NPRN 33035 Troughton, W. (2010) Aberystwyth Through Time

Troughton, W. (2016) Aberystwyth History Tour


DRAFT

### Gwefannau ac Adnoddau Rhyngrwyd


https://www.aber.ac.uk/en/about-us/history/

https://www.aberystwyth.gov.uk/en/council/history-of-the-borough

https://archives.library.wales/

https://archives.wales/

https://archwilio.org.uk/

https://www.britainexpress.com/

https://www.british-history.ac.uk/

https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records

http://www.castlewales.com/aberystw.html

https://ceredigionhistory.wales/

https://coflein.gov.uk

https://datamap.gov.wales/

https://www.discoverceredigion.wales/areas-of-ceredigion/

https://discovery.nationalarchives.gov.uk/

https://en.wikipedia.org

https://en-gb.topographic-map.com

https://www.genuki.org.uk/

https://www.google.com/maps/

https://www.historic-uk.com

https://www.peoplescollection.wales/

https://www.walesonline.co.uk/


DRAFFT